Adroddiad Cymdeithas Sifil Cymru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i gynnig gwybodaeth at y Rhestr o Faterion cyn Adrodd (LOIPR)

Wales UNCRC Monitoring Group

Grŵp Monitro CCUHP Cymru

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Grŵp Monitro UNCRC Cymru, sy'n glymblaid cymdeithas sifil a'i hwylusir gan Plant yng Nghymru, er mwyn cynnig gwybodaeth at ddiben Rhestr o Faterion cyn Adrodd y Cenhedloedd Unedig (LOIPR). Casglwyd y materion blaenoriaethol yn yr adroddiad hwn mewn 2 ddigwyddiad bwrdd crwn yn ystyried 8 maes thematig; Galwad estynedig 6 wythnos o hyd am Dystiolaeth Ysgrifenedig, a dadansoddiad o ffynonellau eilaidd.

O ganlyniad i'r terfyn geiriau (10,000) nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion o bob mater sy'n berthnasol i hawliau plant yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n cynnig trosolwg o'r prif flaenoriaethau y mae sefydliadau cymdeithas sifil wedi'u nodi.

Datganoli: Cymru o fewn cyd-destun y DU

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithredu'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CHP) mewn nifer o feysydd polisi gwahanol fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cynnwys addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, ac amddiffyn a lles plant a phobl fregus, gyda Senedd Cymru yn gallu deddfu er mwyn gweithredu'r CHP. Mae Senedd y DU yn gyfrifol am ddeddfu ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli, gan gynnwys cyfiawnder troseddol ac ieuenctid, mewnfudo a nawdd cymdeithasol.

Diolchiadau

Cyflwynwyd y prosiect gyda chefnogaeth grwp Ymgynghorol yn cynnwys yr aelodaeth Grŵp Monitro CCUHP Cymru.
Barnardo's Cymru
Children in Wales
The Children Society
Children's Commissioner for Wales (Observer status)
EHRC in Wales (Observer Status)
National Deaf Children's Society
NSPCC Cymru
Play Wales
Save the Children
UNICEF UK
Wales Observatory on Human Rights of Children and Young People
WLGA (Observer status)

Cyfraniadau

Rydym yn ddiolchgar i'r sefydliadau/unigolion canlynol am ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, rhai ohonynt hefyd oedd wedi mynychu'r Digwyddiadau Casglu Tystiolaeth:
Action for Children Wales
Barnardo's Cymru
Bevan Foundation
Birchgrove Comprehensive School
Amy Brown
Carmarthenshire Association of Voluntary Services
Child Poverty Action Group
Children in Wales
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Community Integration Team, Swansea Council
David Dallimore
Ceri Davies (Specialist Parks & Technical Manager)
Helen Davies (Childhood Trauma Practitioner, Plasmarl Primary School)
End Youth Homelessness Cymru
EYST Wales
Fair Treatment for the Women of Wales
Food Sense Wales
Fostering Network Wales
Glynn Vivian Art Gallery
Gorseinon Primary School
Grandparents Plus
Guide Dogs Cymru
Hafal
Richard Hain
Tom Jones (Children's Rights & Participation Officer)
Rachel Lewis (Children's rights lead, Ysgol Gyfun Gymraeg Llwynderw)
Llamau
Gary Mahoney (Early Years Co-ordinator)
National Deaf Children's Society
Natural Resources Wales

Neath & Port Talbot Educational Psychology Service
Neath Port Talbot Youth Service
Noah Ark
NSPCC Cymru
NYAS Cymru
Olchfa School
Pembrokeshire Youth Service
Pentrehafod School Student Parliament
Place2Be
Play Wales
Pontybrenin Primary School
Primary Phase team (education)
ProMo Cymru / MEIC
Jennifer Raynor (Education Improvement, Learning & Skills)
RCPCH
RCPCH (Youth)
Rights Ambassadors' Project, Vale Youth Service
Adele Rose
Save the Children
The Sharing Table
Ann Sherlock
Mary Sherwood (Poverty Reduction Policy Development Committee)
Katie Spendiff (Children's Rights Co-ordinator)
Stonewall Cymru
Swansea Museum
Swansea Play Service
Tackling Poverty Service (Swansea Council)
Tarian Regional Organised Crime Unit
Terrance Road Primary School
TGP Cymru
Lynnette Thacker (Swansea Bay UHB)
Think Family Partnership (NPTCBC)
Torfaen Young People's Forum
UNICEF UK (GMI)
UNICEF UK (Youth Justice)
Voices from Care Cymru
Wales Humanists
Wales Observatory on Human Rights of Children / Children's Legal Centre
Welsh Centre for International Affairs
Youth Justice Board
Ysgol Gyfun Gwyr
Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r sefydliadau/unigolion canlynol a gymerodd ran yn y gweithdai thematig yn y Digwyddiadau Casglu Tystiolaeth:

Aneurin Bevan UHB
Booktrust Wales
Bridgend College
Carmarthenshire Team Around the Family
Citizens Advice (Pembrokeshire)
Early Years Wales

Flintshire CBC (Education)
Foster Newport
4C's
Gwent Regional Partnership Team
HEIW
Home Start Cymru
Neath Port Talbot YJB
Reaching Wider- Swansea University
St John Cymru Wales
Swansea Women's Aid
Thrive Women's Aid
Welsh Women's Aid
Wrexham CBC
Y Bont

Ymwadiad: Efallai na fydd y safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu barn y sefydliadau/ unigolion a restrir uchod.

CYNNWYS

Ynglyn a'r Adroddiad hwn 2

Diolchiadau 3-5

30 Mater Blaenoriaethol

Rhaglith

1. Blaenoriaethau sy'n codi: Effaith COVID-19 a gadael yr UE 8-9

Ein Hadroddiad

Mesurau Gweithredu Cyffredinol 11-14

2. Deddfu 11
3. Polisi a Strategaeth Genedlaethol 12
4. Asesiad effaith ar Hawliau Plant 12
5. Cydlynu 13
6. Pennu adnoddau 13
7. Monitro annibynnol 14
8. Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth 14

Egwyddorion Cyffredinol 15-18

9. Peidio â gwahaniaethu 15
10. Data dadelfenedig 17
11. Parch at safbwyntiau'r Plentyn 17

Trais yn erbyn Plant 18-22

12. Triniaeth neu gosbi creulon neu diraddiol 18
13. Rhoi Diwedd ar Gosbi Corfforol 18
14. Trais a Chamdriniaeth 19

Awyrgylch y Teulu a Gofal Amgen 22-27

15. Gofal plant a chefnogaeth yn y blynyddoedd cynnar 22
16. Gofal Teulu 23

17. Plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal 23

18. Gofalwyr Ifanc 27

Anabledd, Iechyd a Llesiant Sylfaenol 27-34

19. Plant Anabl 27

20. Anghyfartaleddau iechyd 28

21. Bwydo o'r bron 30

22. Iechyd Meddwl 30

23. Safon Byw 32

Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwyllianol 35-38

24. Addysg 35

25. Cyrhaeddiad addysgol 36

26. Anghyfartaleddau dysgu digidol 36

27. Gwahardd o'r ysgol 37

28. Chwarae a Hamdden 37

Mesurau Amddiffyn Arbennig 39-40

29. Ceiswyr lloches, Ffoaduriaid a Mewnfudwyr sy'n blant 39

30. Cyfiawnder Ieuenctid 40

Rhaglith: Blaenoriaethau sy'n codi

Effaith COVID-19

Gweithredwyd cyfnod clo cenedlaethol llawn ar 23 Mawrth 2020 yng Nghymru, gyda gorchymyn cenedlaethol i 'aros gartref', i gael ei adolygu'n rheolaidd. Codwyd y cyfyngiadau yn raddol drwy'r haf wrth i gyfraddau heintio ddechrau lleihau. Ail-agorwyd ysgolion i bob plentyn ym mis Medi 2020 er gwaethaf cynnydd mewn achosion newydd. Gweithredwyd cyfnod clo cenedlaethol byrrach ar 23 Hydref. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, codwyd cyfyngiadau ar symud

Mae effaith y pandemig ar fywydau plant, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, wedi bod yn ddwfn ac yn ddigynsail, o ganlyniad i fesurau a gymerwyd i reoli'r peryglon iechyd ac i leihau cyfraddau trosglwyddo. Mae ysgolion, darparwyr gofal plant, gofal iechyd cynradd a gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi gorfod cau am gyfnod, neu weld amharu difrifol ar eu gwasanaethau, wrth i gyfyngiadau cenedlaethol i leihau symud a chyswllt cymdeithasol gael eu gweithredu.

Er na fyddwn yn gwybod beth yw effaith llawn yr argyfwng am beth amser, hyd yn hyn mae wedi gwaethygu anghyfartaledd oedd yn bodoli eisoes, ac wedi codi pryderon yn enwedig ynghylch iechyd meddwl, llesiant, ac addysg; o blant yn dioddef trais yn y cartref a chynnydd mewn tlodi, ac o effeithiau trawma a gofid o ganlyniad i unigedd, bod ar wahân i eraill a cholled, o bosib.

Nid yw effaith COVID-19 wedi bod yn un unfath i bob plentyn, gyda chau ysgolion yn cynnig cyfle i rai plant i fwynhau cyfnodau o amser gyda'u teuluoedd; i ddioddef llai o bwysau addysgol ac oddi wrth gyd-ddisgyblion, ac i gael cyfle i dyfu'n bersonol.[1] Fodd bynnag, mae'r pandemig yn parhau i gael effaith negyddol sylweddol ar blant, gyda chyfyngiadau'n cael eu gorfodi ar grŵp o'r boblogaeth sy'n profi cyfnod hollbwysig o ddatblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae rhai rhannau o'r boblogaeth gyda nodweddion a sefyllfaoedd penodol wedi eu heffeithio'n fwy nag eraill, yn enwedig teuluoedd BAME[2], rhai plant bregus yn byw i ffwrdd o adref, plant mewn cartrefi incwm isel, plant anabl, a'r plant hynny sy'n wynebu straen ychwanegol o orfod cyplysu gofynion addysg gyda chyfrifoldebau gofal[3].

Mae Sefydliadau Cymdeithas Sifil wedi galw ar hawliau plant gael eu blaenoriaethu a'u hamddiffyn yn llawn yn ystod y cyfnod hwn, gan fynnu bod Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu llunio i roi gwybodaeth i bob penderfyniad polisi ac i safbwyntiau plant fod yn greiddiol i'r broses o gynllunio at yr adferiad, wrth i bob lefel lywodraethol gymryd camau i reoli'r pandemig[4].

1 Gweler, er enghraifft, Canolfan Iechyd y Boblogaeth a'r dystiolaeth a dderbyniwyd oddi wrth Wasanaeth Seicoleg Addysgol Castell Nedd-Port Talbot

2 Public Health Wales (2020) How are we doing in Wales?: A Focus on Ethnicity

3 For example, children trying to balance their caring roles with school work see Carers Trust Wales (2020)

4 See CSO evidence provided to, and report of the W/Parliament CYPE Committee (2020) inquiry into the impact of COVID-19

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hamddiffyn yn llawn, ac heb gael eu peryglu ymhellach o ganlyniad i fesurau i fynd i'r afael â COVID-19?
- Ymrwymo i amddiffyn cyllidebau gwasanaethau plant, gan gynnwys y rheini sy'n darparu gwasanaeth i'r mwyaf bregus?

Effaith gadael yr UE

Ym mis Mehefin 2016, cynhaliwyd refferendwm yn y DU ymysg y boblogaeth sy'n oedolion er mwyn penderfynu a ddylid gadael yr Undeb Ewropeaidd ai peidio. Yn dilyn cyfnod maith, derbyniodd Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2020 gan ddarparu cyfnod pontio nes 31 Rhagfyr 2020.

Wrth i'r DU a'r UE weithio i gyrraedd diwedd y Cyfnod Pontio, mae posibilrwydd real yn parhau y bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, a fydd yn arwain at heriau sylweddol yn y tymor byr. Mae disgwyl y bydd effaith gadael yr UE i blant yn sylweddol, gyda Sefydliadau Cymdeithas Sifil yn galw am beidio diraddio hawliau a'u hamddiffynnir yn y gyfraith yn dilyn y weithred o adael[5]. Er y bydd rhai elfennau o amddiffyniadau'r UE yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth y DU, ni fydd Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE bellach yn gymwys ac ni fydd awdurdod gan Lys Cyfiawnder Ewrop[6].

Ceir pryderon y bydd yr hawliau presennol sydd gan blant yn cael eu diraddio neu eu dad-flaenoriaethu[7] ac y gall trefniadau traws-ffiniol presennol i amddiffyn plant gael eu gwanhau[8]. Yn annhebyg i rannau eraill o'r DU, mae Cymru yn elwa o Gronfeydd Strwythurol yr UE, ac mae ansicrwydd yn parhau ynghylch y lefel o gronfeydd y bydd Cymru'n eu derbyn i barhau i allu cefnogi plant bregus mewn rhanbarthau difreintiedi[9]. Mae dyfodol cyfleoedd cyfnewid rhyngwladol a gynigir drwy rhaglenni Ewropeaidd hefyd yn ansicr[10].

Mae disgwyl i Ddeddf Hawliau Dynol 1998[11], sy'n darparu amddiffyniadau ychwanegol i blant, gael ei adolygu[12], gan ddwysáu pryderon y gall amddiffyniadau cyfreithiol ddod o dan fygythiad.[13]. The UK Government should continue to cooperate with the Council of Europe on matters pertaining to the implem Dylai Llywodraeth y DU barhau i gydweithredu gyda Chyngor Ewrop ar faterion sy'n ymwneud â rhoi'r CHP ar waith entation of the CRC.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod yn amddiffyniadau presennol i blant yn cael eu cadw neu eu cryfhau unwaith i'r DU adael yr UE?
- Gryfhau eu gwrthwynebiad i unrhyw gais i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998, a sicrhau bod ein cydweithrediad gyda Chyngor Ewrop yn parhau?

5 Plant yng Nghymru ac Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant Cymru (2017) Brexit a Hawliau Plant: Papur Briffio
6 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2020
7 Gweler tystiolaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (2017) Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'i oblygiadau i Gymru
8 Briff Bil yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2018
9 Llywodraeth Cymru (2020) Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru
10 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y Wales Alliance for Global Learning
11 Y Ddeddf Hawliau Dynol, 1998
12 Cymdeithas y Cyfreithwyr (2020) Government to Review the Human Rights Act
13 Guardian (2020) Government Plans to Remove Key Human Rights protections

EIN HADRODDIAD

MESURAU GWEITHREDU CYFFREDINOL

Deddfu

Cymru oedd yr awdurdodaeth gyntaf yn y DU i gynnwys CHP mewn cyfraith ddomestig[14], sy'n ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymreig roi sylw dyledus i CHP wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau[15]. Mae Adran 5 y ddeddfwriaeth yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi 'Adroddiad Cydymffurfio' rheolaidd[16] gydag Adran 6 yn rhoi grym i addasu deddfwriaeth os yw'n hynny'n ddymunol er mwy gweithredu CHP ymhellach.

Roedd adroddiad a gomisiynwyd gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru[17] yn gadarnhaol, ar y cyfan, ynghylch effaith gynradd y ddeddfwriaeth, yn enwedig y camau a gymerwyd i ddefnyddio CHP fel fframwaith ar gyfer datblygu polisi ac i gefnogi gwaith craffu ac eiriolaeth. Fodd bynnag, gan ei fod yn enghraifft o ymgorffori anuniongyrchol, ychydig iawn y mae wedi'i gyflawni i hybu atebolrwydd barnwrol, gan nad yw CHP yn gymwysadwy yn uniongyrchol mewn llysoedd domestig. Nid yw cyfraith Cymru'n rhoi rhwymedi cyfreithiol i blentyn sydd wedi dioddef o ganlyniad i ymyrraeth o'u hawliau yn ôl CHP, ac nid yw chwaith yn rhoi statws uwch na chyfartal i CHP â deddfwriaeth ddomestig.

Cadarnhawyd cymhwysedd Senedd Cymru i ddeddfu er mwyn 'arsylwi a gweithredu' rhwymedigaethau rhyngwladol gan Ddeddf Cymru 2017[18] . Mae enghraifft yr Alban, sydd wedi cyflwyno Bil i ymgorffori CHP yn y gyfraith, yn dangos potensial y model cadw pwerau o ddatganoli er mwyn galluogi ymgorffori mewn ffordd sy'n sicrhau bod hawliau'n gallu cael eu gweithredu'n uniongyrchol ar lefel ddatganoledig[19].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gyflwyno deddfwriaeth er mwyn ymgorffori CHP i gyfraith Cymru, a chymryd camau i ymgorffori Confensiynau perthnasol eraill, o ystyried eu heffaith ar blant?

Cadarnhau Protocol Opsiynol 3

Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau OP3[20] er gwaethaf argymhellion y CU[21] a galwadau gan Sefydliadau Cymdeithas Sifil[22] i wneud hynny. Byddai cadarnhau'r protocol yn rhoi cyfle i blant gael gwneud

14 Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

15 Ers mis Mai 2012, mae gofyn ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i ystyried CHP a'i brotocolau opsiynol wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth i'w chynnwys mewn mabwysiad, neu wrth ffurfio polisi neu ddeddfwriaeth newydd, neu adolygu neu newid polisi neu ddeddfwriaeth gyfredol. Estynnwyd y gofyniad hwn i bob gweithred gan weinidogion o fis Mai 2014 ymlaen

16 Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cydymffurfio diweddaraf yn 2018 ac mae'n berthnasol i'r cyfnod rhwng Mehefin 2015 a Ionawr 2018.

17 Hoffman, S. ac O'Neill, S. (2018), Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru

18 Deddf Cymru 2017

19 Disgwylir y bydd United Nations Convention on the Rights of the Child (Incorporation) (Scotland) Bill yn cael ei phasio yn gynnar yn 2021. Mae testun CHP wedi'u drawsosod i'r Ddeddf a fydd yn cymhwyso'r hawliau a nodir yn CHP yn uniongyr chol, gan gynnwys mewn llysoedd barn

20 OP3 - on a communications procedure (OP3)

21 UN Concluding Observations 2016

22 Gellir dod o hyd i bob dogfen a gyflwynwyd ar wefan Uwch Gomisiynydd Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig dros Hawliau Dynol

cynrychioliadau uniongyrchol i'r CU a gofyn am iawndal pan fyddant yn ystyried bod eu hawliau wedi eu tramgwyddo.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Alw ar Lywodraeth y DU i gadarnhau OP3 gyn gynted ag y bo modd?

Polisi a Strategaeth Genedlaethol

Nid oes strategaeth genedlaethol ar gyfer plant wedi bod gan Gymru ers diwedd tymor diwethaf Llywodraeth Cymru yn 2016[23]. Er bod y Rhaglen Lywodraethu[24] gyfredol yn cyfeirio nifer o weithiau at gyflawni blaenoriaethau i blant ar draws ystod o feysydd thematig, nid oes cynllun gweithredu i roi'r CHP ar waith na chyflawni Sylwadau Terfynol 2016.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gyhoeddi strategaeth genedlaethol gynhwysfawr gydag adnoddau digonol ar y cyd gyda Sefydliadau Cymdeithas Sifil a chyfranogiad gan blant; gyda gweithredoedd cyraeddadwy a mesuradwy i gael eu monitro a'u gwerthuso'n drylwyr?

Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant

Mae deddfwriaeth yn gofyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun[25] sy'n gosod allan sut y bydd yn cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus. Cyflwynodd y Cynllun ddull gweithredu Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant sy'n berthnasol i bob darn o ddeddfwriaeth a pholisi sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar blant.

Er bod ymchwil wedi cadarnhau pwysigrwydd asesiadau effaith i sicrhau bod CHP yn cael ei ystyried gan Weinidogion wrth wneud penderfyniadau polisi a chodi proffil hawliau plant, mae'n ystyried bod yr asesiadau wedi'u rhoi ar waith mewn modd anghyson ac anwadal[26]. Mae gwendidau'n cynnwys rhoi'r asesiadau ar waith yn rhy hwyr yn y broses bolisi i wneud unrhyw wahaniaeth; diffyg arbenigedd perthnasol wrth gwblhau'r asesiadau, a methiant i roi'r asesiadau ar waith yn llawn mewn rhai polisïau sy'n effeithio ar blant. Mae hyn yn cynnwys cyllideb Llywodraeth Cymru. Cafodd argymhelliad Pwyllgor o Senedd Cymru i gywiro hyn ei wrthod[27].

Mae COVID-19 wedi amlygu sut y gall asesiadau effaith ar hawliau plant gael eu hesgeuluso. Methodd Llywodraeth Cymru â chymhwyso asesiad effaith ar hawliau plant i'r mesurau argyfwng cychwynnol,[28], er gwaethaf effaith amlwg iawn mesurau fel cau ysgolion a chyfyngu ar gweithgarwch awyr agored ar blant[29]. Atgyfnerthwyd hyn gan fethiant i gymhwyso asesiadau effaith i gamau cychwynnol a gymerwyd wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu codi[30].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gwblhau a chyhoeddi asesiadau effaith trylwyr ar hawliau plant ar bob cynnig polisi a deddfwriaethol sy'n debygol o effeithio plant yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a chyflwyno

23 Grwp Monitro Cymru CCUHP (2019) Tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Hawliau Plant

24 Llywodraeth Cymru (2017) Rhaglen Lywodraethu

25 Senedd Cymru (2014) Cynllun Hawliau Plant

26 Hoffman, S. & O'Neill, S. (2018), Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru and UNICEF (2017) Briefing, Strengthening CRIA in Wales (2017)

27 Llywodraeth Cymru (2020) Ymateb i argymhellion Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'u Hymchwiliad i Hawliau Plant yn dilyn galwadau i gyhoeddi Asesiad Unigol o'r Effaith ar Hawliau Plant

28 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan UNICEF UK

29 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc Cymru

30 Er enghraifft, o ran ailagor ysgolion, gweler y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc Cymru

deddfwriaeth i wneud asesiadau o'r fath yn ofyniad statudol?

Cydlynu

Mae trefniadau cydlynu presennol wedi cael eu beirniadu, gyda sefydliadau cymdeithas sifil yn galw ar y rhain i gael eu cryfhau[31]. Dylai tîm canolog gael 'adnoddau dynol, technegol ac ariannol digonol' i weithredu cyfrifoldebau'r Gweinidog yn effeithiol, a chynnal perthnasau strategol gyda staff uwch ar draws Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Sefydliadau Cymdeithas Sifil/Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol.

Bu sefydlu Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant gyda chyfranogaeth Sefydliadau Cymdeithas sifil / Sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol yn ddatblygiad cadarnhaol[32].

Nid oes 'Gweinidog Plant' penodedig yn bodoli. Cafodd galwadau i newid hyn eu gwrthod[33]. Portffolio'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb dros blant, ond mae'n aneglur sut y rhennir cyfrifoldebau CHP ar draws portffolio pob Gweinidog. Yn ddiweddar, derbyniodd y Llywodraeth alwadau i Weinidogion dderbyn hyfforddiant ar CHP, ac mae hyn i'w groesawu, ond dylai hyn gael ei wneud yn orfodol.

Mae gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill bwerau sylweddol o ran rhoi CHP ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfodi dyletswydd sylw dyledus ar rai awdurdodau ac unigolion[34]. Er bod deddfwriaeth sectorol i'w groesawu, hyd yn hyn mae hyn wedi bod yn bytiog gyda threfniadau monitro annigonol. Mae sefydliadau cymdeithas sifil wedi galw ar bob corff cyhoeddus i dderbyn dyletswydd benodol, ac i Lywodraeth Cymru i fonitro cydymffurfio yn eu swyddogaeth fel cydlynydd[35] . Gresynwn fod argymhelliad gan Bwyllgor o Senedd Cymru o blaid hyn wedi cael ei wrthod[36].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Apwyntio Gweinidog Plant gyda goruchwyliaeth dros ddyletswydd sylw dyledus, gyda chefnogaeth Pwyllgor Cabinet dros blant a thîm canolog gydag adnoddau, arbenigedd, capasiti ac awdurdod digonol er mwyn cydlynu pob mater sy'n berthnasol i roi'r CHP ar waith ar draws portffolio pob Gweinidog?
- Cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod gan bob corff cyhoeddus (datganoledig) ddyletswydd sylw dyledus i'r CHP, gyda threfniadau monitro, atebolrwydd ac adrodd mewn lle i sicrhau cydymffurfio?
- Sicrhau bod hyfforddiant i swyddogion a Gweinidogion yn orfodol?

Pennu adnoddau

Mae ystyriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i gyfrifoldeb sylw dyledus i'r CHP a dylid cynnal asesiad effaith ar hawliau plant. Ceir diffyg tryloywder ar wariant ar blant mewn cyllido cyhoeddus ar draws portffolio pob Gweinidog, ac mae'n well gan Lywodraeth Cymru Asesiad Effaith Strategol Integredig (SIIA) i gyd-fynd a'u cyllideb ddrafft. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl asesu a yw'r lefel uchaf posibl o

31 Llywodraeth Cymru (2020) Ymateb i argymhellion Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'u Hymchwiliad i Hawliau Plant

32 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grwp Cynghori ar Hawliau Plant gyda'r aelodau canlynol: Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, UNICEF, ac Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant Cymru. Mae'r grwp yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â hawliau plant ar lefel strategol, ac mae ar gael i roi cymorth i bob adran gydag Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant

33 Llywodraeth Cymru (2020) Ymateb i argymhellion Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'u Hymchwiliad i Hawliau Plant

34 Mae Adran 7(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod dyletswydd ar unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i CHPCU mewn perthynas â: phlentyn sydd, neu sydd o bosibl angen gofal a chefnogaeth; plentyn sy'n ofalwr sydd angen, neu sydd o bosibl angen cefnogaeth; neu sydd wedi gofalu am blant (fel y'i diffinir yn y Ddeddf). Mae Adran 7(1) Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn nodi bod dyletswydd ar gorff perthnasol sy'n gweithredu o dan Rhan 1 y Ddeddf (mewn perthynas ag angenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc) i roi sylw dyledus i CHPCU

35 Grwp Monitro Cymru CCUHP (2019) Tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Hawliau Plant

36 Llywodraeth Cymru (2020) Ymateb i argymhellion Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'u Hymchwiliad i Hawliau Plant

adnoddau sydd ar gael i wireddu rhwymedigaethau'r CHP yn cael eu defnyddio[37].

Nid yw'r templed Asesiad Effaith ar Hawliau Plant o fewn yr SIIA yn cwrdd â chanllawiau rhyngwladol[38] nag yn darparu sicrwydd bod sylw dyledus yn cael ei roi i'r CHP. Er bod memorandwm esboniadol y gyllideb yn sôn am gyllido gwasanaethau plant, mae'n bell o fod yn gynhwysfawr[39]. Nid yw'r Cynllun Gwella diweddar yn sôn am blant na'r CHP[40].

Pe bai cyllidebu'n unol â hawliau plant yn cael ei gynnal[41], byddai'n hybu casglu a chyhoeddi data hanfodol, yn ogystal â datblygu dangosyddion i helpu gwerthuso effaith gwario a llywio penderfyniadau cyllidebol at y dyfodol. Byddai hefyd yn annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio mecanwaith tebyg i lunio faint o'u cyllideb sydd i'w gwario ar blant.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Ddadansoddi cyllidebu plant, gan sicrhau bod Asesiad Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gynnal a'i gyhoeddi ar y gyllideb flynyddol, ac yn cynnwys asesiad o'r adnoddau sydd ar gael i roi cynigion ar waith i gyd-fynd â'r CHP?

Monitro annibynnol

Argymhellodd adolygiad o broses apwyntio, ariannu ac atebolrwydd Comisiynydd Plant Cymru y dylid trosglwyddo'r pwerau hyn o Lywodraeth Cymru i'r Senedd[42]. Gwrthodwyd hyn yn rhannol[43]. Mae'r Comisiynydd Plant wedi gofyn am ragor o bwerau i allu delio â materion sy'n ymwneud a phlant yng Nghymru sydd y tu hwnt i gymwyseddau datganoledig[44].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Drosglwyddo cyfrifoldeb dros apwyntio ac ariannu'r Comisiynydd Plant i Senedd Cymru, a chwrdd â'r galw am bwerau er mwyn ymateb yn effeithiol i unrhyw fater sy'n effeithio plant yng Nghymru?

Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae deddfwriaeth gyfredol yn gosod cyfrifoldeb ar Weinidogion i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CHP. Mae'n anodd mesur i ba raddau mae'r gweithgarwch a gynhaliwyd wedi cyflawni'r nod gwreiddiol, o ystyried nad oes gwaith dadansoddi wedi'i gynnal i'r perwyl hwn[45].

---

37 Gweler yr Adroddiad o, a thystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad ar y cyd rhwng Bwyllgorau Senedd Cymru (2019) Ymch wiliad ar y cyd rhwng pwyllgorau: Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol

38 Canllawiau'r Cenhedloedd Unedig ar greu cyllidebau cyhoeddus er budd hawliau plant UNCRC General Comment No. 19 (2016)

39 Er enghraifft, dim ond arnodi'r gwariant a bennir i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol plant er mwyn osgoi cymryd plant mewn i ofal y mae memorandwm 2019-20, yn ogystal â gwariant ychwanegol ar y blynyddoedd cynnar

40 W/Government (2019) Budget Improvement Plan

41 Yn 2006, Cymru oedd yr unig diriogaeth yn yr UE i geisio ddadansoddi'r gyllideb yn canolbwyntio'n arbennig ar blant, gan weithio i adnabod y gyfran o gyllideb y Llywodraeth oedd yn cael ei wario ar blant. Yn 2006, amcangyfrifwyd fod 28% o'r gyllideb, neu £4.4 biliwn o wariant Llywodraeth Cymru wedi'i bennu ar gyfer plant. Gweler tystiolaeth a dderbyniwyd gan UNICEF UK

42 Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, Argymhelliad 6: Ceir egwyddorion eglur ynghylch annibyniaeth cyrff cyhoeddus sy'n gweithio ym maes hawliau dynol. Dylai Llywodraeth Cymru eu cydnabod ac ymlynu wrthynt trwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb am benodi a chyllido'r Comisiynydd Plant i'r Cynulliad Cenedlaethol (Senedd Cymru bellach). Gweler hefyd yr Ymateb oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru i'r holl argymhellion.

43 Llywodraeth Cymru (2015) Datganiad Ysgrifenedig - Ymateb i'r argymhellion o Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

44 Comisiynydd Plant Cymru (2015) Ymateb i'r argymhellion o Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

45 Grwp Monitro Cymru CCUHP (2019) Tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Hawliau Plant

Mae nifer o Sefydliadau Cymdeithas Sifil yn cynnig y gweithgareddau sy'n cyfrannu tuag at y nod hwn[46] Fodd bynnag, mae ymchwil[47], yn dangos bod cael mynediad i wybodaeth am CHP i blant yn aml yn dibynnu ar yr ysgol maent yn ei mynychu ac/neu a ydynt yn ymwneud mewn strwythurau cyfranogi ffurfiol ai peidio.

Er ein bod yn cefnogi ambell ymgais ddiweddar i godi ymwybyddiaeth[48], tar hyn o bryd nid oes strategaeth gyda chanlyniadau mesuradwy'n bodoli na gwaith cydlynu gweithgarwch cenedlaethol yn digwydd.

Ceir angen dirfawr am ddull cenedlaethol sy'n cynnig cyfle i bob plentyn gael mynediad i wybodaeth a dealltwriaeth am CHP. Gellir cyflawni hyn trwy sefydlu addysg hawliau dynol mewn ysgolion, yn ogystal â chryfhau strwythurau sy'n bodoli eisoes sy'n cynnig cyfleoedd dysgu. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar bod strategaeth genedlaethol i godi ymwybyddiaeth bellach yn cael ei datblygu[49] a dylid ei halinio â CHP.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Ddatblygu strategaeth genedlaethol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CHP gyda chyfranogiad Sefydliadau Cymdeithas Sifil a phlant, gyda chanlyniadau mesuradwy sy'n ddarostyngedig i drefniadau monitro a chraffu?

Egwyddorion Cyffredinol

Peidio â gwahaniaethu

Gwahaniaethu ar sail oedran

Er bod Deddf Cydraddoldeb 2010[50] y DU yn amddiffyn pobl ag un nodwedd warchodedig neu fwy, nid yw'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn plant ar sail eu hoedran.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Alw ar Lywodraeth y DU i newid deddfwriaeth i amddiffyn plant rhag gwahaniaethu ar sail oedran?

Mynd i'r afael â gwahaniaethu a throsedd casineb

Mae nifer o blant â nodweddion penodol yn parhau i ddioddef gwahaniaethu, stigmateiddio, trais a bygythiadau o drosedd casineb, ac yn dangos canlyniadau gwahanol o ran iechyd, addysg a llesiant fel y'i amlinellir drwy gydol yr adroddiad hwn.

Yn ôl data diweddar bu cynnydd mewn trosedd casineb mewn plant o ganlyniad i hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, anabledd a bod yn drawsrywiol[51], er bod y gwir ffigyrau'n debygol o fod yn llawer uwch[52]. Mae pryderon diweddar yn canolbwyntio ar y cynnydd mewn digwyddiadau o gasineb ar-lein, yn enwedig yn ystod y cyfnod y bu ysgolion ar gau o ganlyniad i COVID-19[53].

46 Er enghraifft, trwy ddarparu hyfforddiant i blant ac/neu'r gweithlu
47 Hoffman, S. ac O'Neill, S. (2018), Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
48 Er enghraifft, trwy Lywodraeth Cymru'n comisiynu gweithgarwch rhyngweithiol a chyfleoedd ymgysylltu i blant, yn y cyfnod cyn digwyddiad cenedlaethol i ddathlu pen-blwydd CHP yn 30 oed yn 2019
49 Llywodraeth Cymru (2020) Ymateb i argymhellion Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'u Hymchwiliad i Hawliau Plant
50 Deddf Cydraddoldeb 2010
51 Victim Support Wales (2020) Plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb yng Nghymru
52 Y Swyddfa Gartref (2018) Hate Crime, England and Wales 2018/19
53 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan EYST

Dengys ymchwil[54] bod lefelau trosedd casineb hiliol yn rhemp ymysg plant mewn ysgolion. Ceir galwadau am fecanwaith adrodd cryfach a thempledi recordio wedi'u safoni, yn ogystal â chynnydd yn y gefnogaeth i ddioddefwyr a chyfleoedd hyfforddi i staff addysgu (dim ond 3% ohonynt sy'n BAME)[55]. Mae angen buddsoddi pellach mewn rhaglenni atal troseddi casineb, a gweithredu i atal hiliaeth trwy sefydlu addysg gwrth-hiliol mewn ysgolion yn ogystal â sicrhau cynrychiolaeth gadarnhaol o amrywiaeth ethnig drwy'r cwricwlwm ysgol.[56]. Ceir nifer cyfyngedig o wasanaethau wyneb-yn-wyneb sy'n delio'n uniongyrchol â throsedd casineb er mwyn cefnogi plant[57].

Amlygwyd hiliaeth a thrais sefydliadol drwy sylw yn y cyfryngau ar ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys, sydd wedi bod yn gatalydd ymysg pobl ifanc i alw am newid[58].

Mae plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu rhwystrau penodol o ran cyrraedd anghenion iechyd, addysg a thai. Er gwaethaf y ddyletswydd statudol sydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad angen llety[59], mae prinder llety sy'n addas yn ddiwylliannol yn parhau. Mae hyn yn rhoi plant mewn perygl o golli eu hunaniaeth a dealltwriaeth o'u diwylliant a'u ffordd o fyw[60]. Dim ond 1 ymhob 5 o blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n cyrraedd canlyniadau addysgol disgwyliedig yn 16 oed er gwaethaf y gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb [61] ac ymdrechion i leihau'r bwlch cyrhaeddiad[62]. Mae teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu rhwystrau penodol wrth geisio cael mynediad i wasanaethau iechyd ac maent yn dioddef o ganlyniadau iechyd gwaeth[63].

Mae plant LHDT yn parhau i wynebu rhwystrau mewn iechyd ac addysg, gydag ymchwil yn awgrymu eu bod yn wynebu cyfraddau uchel o iechyd meddwl gwael[64], bwlio mewn ysgolion[65], ac yn derbyn diffyg cefnogaeth gan rai gweithwyr rheng flaen y sector cyhoeddus[66]. Mae pobl ifanc LHDT yn llawer mwy tebygol o fod mewn perygl o ddigartrefedd na'u cyfoedion[67]. Mae angen rhagor o gefnogaeth i blant LHDT, sy'n aml yn dioddef gwahaniaethu a chamdriniaeth homoffobig, biffobig neu drawsffobig, yn ogystal â hyfforddiant proffesiynol.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gymryd camau i fynd i'r afael â gwahaniaethu y mae grwpiau penodol o blant yn ei ddioddef, gan gynnwys hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, hyfforddiant a chefnogaeth i fynd i'r afael â bwlio, trosedd casineb ac anoddefgarwch?
- Sicrhau bod staff sector cyhoeddus y rheng flaen yn derbyn hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant ar sut i fynd i'r afael â chamdriniaeth, bwlio a gwahaniaethu?
- Sicrhau bod cynhwysiant ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm ysgol?
- Buddsoddi mewn rhaglenni atal trosedd casineb a gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr?
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldeb o ddarparu llety digonol ac addas i deuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr?
- Sicrhau bod gan bob plentyn fynediad cyfartal ac yn cyflawni canlyniadau gwell o ran addysg ac iechyd?

54 Er enghraifft, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru (2020) Hiliaeth yng Nghymru? Archwilio rhagfarn yn y system addysg yng Nghymru. Gweler hefyd dystiolaeth gan Dîm Integreiddio Cymunedol Abertawe
55 EYST (2018) Experiences of Racism and 'Race' in Schools
56 Race Alliance Wales (2020) O rethreg i realiti: Ein Maniffesto dros Gymru Wrth-Hiliol
57 Victim Support Wales (2020) Children and young people affected by Hate Crime in Wales
58 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Ieuenctid Castell Nedd Port Talbot
59 Deddf Tai (Cymru) 2014
60 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan TGP Cymru
61 Estyn (2019) Mae mwy o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn mynychu'r ysgol, ond mae angen mwy o gymorth
62 Llywodraeth Cymru (2018) Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr
63 CCHD (2018) A yw Cymru'n decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol
64 Stonewall (2018) LGBT in Britain Health Report
65 Stonewall Cymru (2017) Adroddiad Ysgol Cymru
66 Tystiolaeth gan Stonewall Cymru
67 End Youth Homelessness Cymru (2019) Out on the Streets

Data dadelfenedig

Ceir prinder parhaus o ddata sy'n benodol i Gymru a data dadelfenedig, a fyddai'n cynnig dealltwriaeth well o'r effaith y mae penderfyniadau, polisi a deddfwriaeth yn ei gael ar grwpiau penodol o blant.

Cw – A wnaiff Lywodraeth Cymru

- Gymryd camau i gryfhau mecanwaith cryfhau casglu data, gan gynnwys data dadelfenedig?

Parch at safbwyntiau'r plentyn

Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd wrth sefydlu Senedd Ieuenctid annibynnol[68] sy'n atebol i Senedd Cymru ac yn gweithredu ar y cyd gyda strwythurau cenedlaethol eraill sefydledig[69], nid yw safbwyntiau plant yn dal i gael eu clywed yn gyson ar bob penderfyniad sy'n effeithio arnynt.

Mae nifer o blant yn dal i deimlo nad yw gweithwyr proffesiynol yn gwrando arnynt, ac nid oes ganddynt fynediad rheolaidd at gefnogaeth eiriolaeth annibynnol. Ceir diffyg cyfleoedd i gyfrannu ar y cyd mewn modd ystyrlon yn lleol, er bod canllawiau gorfodol yn bodoli i'r perwyl hwn[70]. Dylid gwneud mwy i sicrhau bod plant yn cael cymryd rhan mewn penderfyniadau'n gynt ac yn rheolaidd, gan roi ystyriaeth arbennig i'r rheini sy'n cael eu tangynrychioli fwyaf. Dylid cynnwys modelau cyfranogaeth hafal ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn unol â safonau cenedlaethol cyffredin[71] a deddfwriaeth[72], Rhaid sefydlu trefniadau monitro ac atebolrwydd i sicrhau bod arfer o ansawdd ddigonol[73] a bod y weithred o gynnwys plant yn arwain at newid amlwg.

Er bod cyfranogiad wedi'i sefydlu'n eglur mewn deddfwriaeth ac mewn polisi addysg, yn ymarferol mae mwy o gyfleoedd i blant dros 7 oed, gan fod dulliau'n aml yn seiliedig ar gyfathrebu geiriol, sy'n cyfyngu ar blant iau ac mewn rhai achosion ar blant gydag anghenion ychwanegol. Yn fframwaith y cwricwlwm i blant (3–7 oed), rhestrir cyfranogiad yn un o'r 12 elfen pedagogaidd, ond ychydig o dystiolaeth y ceir bod hyn yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd fel y dylid[74]. Dylai ymarferwyr dderbyn hyfforddiant i alluogi plant iau i gyfrannu[75], a dylai'r strwythur rhwng llais plant mewn ysgolion a chyfleoedd lleol/cenedlaethol gael eu cryfhau.

Mae'n galonogol y bydd pob person 16 a 17 oed yn gallu pleidleisio mewn etholiadau cenedlaethol yn 2021[76] a'r rhan fwyaf yn yr etholiadau lleol nesaf[77]. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda sefydliadau cymdeithas sifil i ymgysylltu â phlant ynghylch goblygiadau Brexit ac effaith COVID-19[78].

---

68 Senedd Ieuenctid Cymru

69 Er enghraifft, Cymru Ifanc

70 Mae hybu a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol yn y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

71 The National Standards for Children and Young People's Participation, are endorsed by WG, should be adopted by Public Service Boards when consulting children.

72 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: canllawiau

73 Er enghraifft, gweler tystiolaeth a dderbyniwyd gan Gydlynydd Hawliau Plant (Abertawe)

74 Clement, J. (2019) Spatially Democratic Pedagogy: Children's Design and Co-Creation of Classroom Space Dangosodd gwerthusiad diweddar o'r Cyfnod Sylfaen mai gallu plant i 'gyfeirio'u dysgu'n ddigymell' neu 'i ddewis pa weithgaredd i ymgysylltu ag ef allan o'u gwirfodd' yw cyfranogiad. Fodd bynnag, mae'r ymarferion cyfranogol hyn yn digwydd mewn lleoedd sy'n barod wedi rhag-gyflyru ffyrdd o fod ac sy'n drech na bwriadau'r plentyn. Taylor, C.et al. 2015. Evaluating the Foundation Phase: Final Report. Adroddiad Prosiect. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

75 Er enghraifft, gweler tystiolaeth a dderbyniwyd gan Gydlynydd Hawliau Plant Abertawe

76 Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

77 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (pasiwyd yn ddiweddar). Rhoddodd Lywodraeth Cymru'r gorau i gynlluniau i alluogi rhai oedolion mewn carchardai a phlant yn y ddalfa i bleidleisio o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19 https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-52221041

78 Gweler adroddiad Cymru Ifanc ar safbwyntiau pobl ifanc ar Brexit (2018) a Chomisiynydd Plant Cymru et al. (2020) Coronafeirws a fi

Cw – A wnaiff Lywodraeth Cymru

- Sicrhau bod trefniadau cenedlaethol a lleol cyfranogiad plant yn hybu dull wedi'i seilio ar hawliau, eu bod yn gynaliadwy, yn cael eu hariannu'n addas ac yn cael eu monitro yn ôl safonau cenedlaethol, a bod y rhain yn cynnwys cyfleoedd i blant drafod materion sydd o bwys iddynt?
- Sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i blant ifanc, a'r rhai mwyaf bregus ac agored i niwed gael cymryd rhan ar lefel leol a chenedlaethol?

Trais yn Erbyn Plant

Triniaeth neu gosbi creulon neu diraddiol

Er bod Pwyllgor y CU wedi argymell y dylai defnydd o Taser ar blant gael ei wahardd, gall swyddogion heddlu ag arfau tanio ddefnyddio dryll llonyddu electronig ar blant. Dengys data bod Taser wedi cael ei ddefnyddio 55 gwaith ar blant yng Nghymru, rhai ohonynt mor ifanc ag 11 oed, bod teclynnau amddiffyn rhag brathu/ poeri wedi eu defnyddio 34 gwaith, yn cynnwys unwaith ar blentyn dan 12[79] , er bod ymchwil yn dangos cymaint o drawma a straen y gall achosi i blant gael eu rhoi mewn cwfl (hooded)[80].

Mae dal i fod prinder data ar ddefnydd o ataliaeth ar blant mewn nifer o leoliadau yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at ganllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru sydd i gael eu rhyddhau yn fuan, i leihau arferion o ddefnyddio ataliaeth[81] ac archwiliad y CCHD ar ddefnydd o ataliaeth mewn ysgolion[82].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Alw ar Lywodraeth y DU i wahardd defnydd o Taser ar blant dan 18 oed yng Nghymru?[83]
- • Gyhoeddi canllawiau ar leihau arferion cyfyngol; monitro gweithredu a gwella gwaith casglu data?

Rhoi diwedd ar gosbi corfforol

Rydym yn llawn gefnogi Llywodraeth Cymru am basio deddfwriaeth fydd yn dileu amddiffyniad cosb resymol a darparu amddiffyniad hafal i blant yn y gyfraith unwaith y bydd y ddeddf yn cael ei gweithredu yn Ebrill 2022[84]. . Rhaid i Lywodraeth Cymru anelu i wireddu Erthyglau 19 a 37 a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Dylid cyflwyno ymgyrch addysgu cyhoeddus atyniadol i gefnogi'r gwasanaethau sy'n galluogi rhieni i ddefnyddio dulliau magu plant cadarnhaol di-drais

Cw – A wnaiff Lywodraeth Cymru

- Sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n effeithiol drwy ymgyrch godi ymwybyddiaeth, a darparu adnoddau i wasanaethau cynghori am fagu plant?

79 BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50867382 o ffigurau blynyddol Llywodraeth y DU ar 'ddefnyddio grym'

80 CRAE (2016) State of Children's Rights in England: Policing and Criminal Justice

81 Llywodraeth Cymru (2019) Drafft Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol

82 Archwiliad gan y CCHD: How schools are monitoring the use of restraint

83 Mae Children's Rights Alliance England hefyd yn argymell bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi canllawiau a hyfforddiant i'r heddlu tra bod defnydd Taser a Spit-hood heb ei wahardd ar blant, fel mai mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig y'u defnyddir.

84 Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

Trais a chamdriniaeth

Amddiffyn plant

Yn 2018, roedd cyfradd y plant o dan 18 ar y gofrestr amddiffyn plant yn 47 ymhob 100,000 yng Nghymru, un o'r uchaf yn y DU[85] gyda chamdriniaeth emosiynol (43.2%)[86] %) ar frig y rhestr o resymau a roddir. Fodd bynnag, mae ffigyrau swyddogol yn debygol o fod yn rhy isel o ran y darlun cyfan o gam-drin plant. Yn aml, nid yw achosion yn cael eu hadrodd i asiantaethau amddiffyn plant ac maent yn aros yn gudd[87]. Bydd COVID-19 wedi gwaethygu'r diffyg adrodd hwn gan fod nifer o blant heb gael eu gweld gan wasanaethau cyffredinol. Mae achosion o ddynladdiad plant a gofnodwyd gan yr heddlu, sy'n fesur pwysig o ddiogelwch plant, wedi parhau i ostwng, er bod ymchwil yn awgrymu bod y nifer o blant sy'n marw lle'r amheuir bod camdriniaeth yn bresennol yn uwch na ffigyrau a gofnodir[88].

Camdriniaeth gorfforol

Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus barhau i ymateb yn effeithiol i bob achos o gamdrin corfforol, pan fydd rhywun yn gwneud niwed i blentyn yn fwriadol ac yn achosi anaf. Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi gwaethygu'r perygl i rai plant, gyda llinell gymorth genedlaethol yn cofnodi cynnydd o 53% mewn galwadau lle roedd pryder am blant yn dioddef o gamdriniaeth gorfforol yn ystod y cyfnod clo o gymharu â chyn hynny[89]. Dywedodd plant oedd yn defnyddio linellau cymorth bod cosbi corfforol wedi bod yn digwydd yn fwy rheolaidd[90].

Camdriniaeth rywiol (CSA)

Mae adroddiadau bod y cwymp mewn cynlluniau amddiffyn plant yng Nghymru rhag camdriniaeth rywiol yn peri pryder[91], gyda'r nifer o blant ar y gofrestr o ganlyniad i gamdriniaeth rywiol yn cwympo o 28% dros gyfnod o 10 mlynedd[92]. Mae hyn er gwaethaf y nifer uchel o alwadau i linellau cymorth cenedlaethol ynghylch camdriniaeth ac esgeulustod, gyda 78% o alwadau'n ymwneud â chamdriniaeth ac ymddygiad rhieni[93]. Yn ystod y cyfnod clo, nododd gwasanaethau arbenigol sy'n gweithio â dioddefwyr sy'n blant nad oedd cefnogaeth yn gallu cael ei darparu i blant ifanc nad oedd yn gallu cael mynediad i gefnogaeth rhithiol yn annibynnol, gan gynnwys therapi chwarae. Mae hyn yn debygol o gael goblygiadau parhaus ar wellhad plant, yn enwedig wrth i fesurau ymbellhau cymdeithasol barhau i fod mewn grym. Disgwylir y bydd cynnydd i'w weld mewn troseddau camdriniaeth rywiol mewn plant yn ystod y cyfnod clo[94].

Er bod Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Atal Camdriniaeth Rywiol mewn plant i'w groesawu, mae pryderon yn parhau ynghylch argaeledd gwasanaethau cefnogaeth arbenigol[95]. Mae amseroedd aros am Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn hirfaith[96], nid yw cefnogaeth ar gael yn gyson yn ddaearyddol, ac mae lefelau cyllido yn y dyfodol yn anwadal. Ceir diffyg data, gwybodaeth am effaith a gwasanaethau i blant rhiant a arestiwyd am droseddau camdriniaeth rhywiol plant ar-lein[97].

---

85 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan RCPCH - o gymharu â 47.7 ymhob 100,000 yng Ngogledd Iwerddon, 26 ymhob 100,000 yn yr Alban a 45 ymhob 1000,000 yn Lloegrd

86 Stats Cymru (2019)

87 Child Abuse Extent and Nature (2019) -Nid oedd tua 1 ymhob 7 o oedolion a alwodd linell gymorth y NAPAC yn ystod y flwyddyn flaenorol erioed wedi dweud wrth unrhyw un eu bod wedi cael eu cam-drin (ffigurau Cymru a Lloegr)

88 Brandon, M. et al (2012) New learning from serious case reviews; a two year report for 2009-2011. Gweler hefyd ONS (2019) Homicide Rates in England and Wales

89 NSPCC (2020) the impact of the coronavirus pandemic on child welfare: physical abuse

90 ibid

91 The Centre of Expertise on Child Sexual Abuse (CSA)

92 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan NSPCC Cymru - o 160 yn 2007/08 i 115 yn 2017/18

93 Ibid (Mehefin 2020)

94 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Uned Droseddu Cyfundrefnol Rhanbarthol Tarian

95 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan NSPCC Cymru

96 Crouch-Puzey, E. (2018) State of the Sector Cymorth i Ferched Cymru

97 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Uned Droseddu Cyfundrefnol Rhanbarthol Tarian

Cw – A wnaiff Lywodraeth Cymru

- Fabwysiadu ymateb tymor hir, cynaliadwy, sy'n ystyried trawma yn addas i ddiogelu plant rhag trais ac esgeulustod?
- Sicrhau bod plant sydd wedi dioddef camdriniaeth yn gallu cael mynediad i wasanaethau therapiwtig sy'n canolbwyntio ar blant pan fo'u hangen?
- Gymryd ymagwedd iechyd cyhoeddus i gamdriniaeth rywiol plant a chyhoeddi asesiad effaith o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol erbyn diwedd 2022?

Camfanteisio Troseddol / Camfanteisio'n rhywiol ar blant

Achosir y perygl cynyddol o gamfanteisio troseddol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant[98] yn rhannol gan y cynnydd mewn lefelau tlodi[99]. Credir bod dros 1,000 o rwydweithiau llinellau cyffuriau 'County Lines' ar draws y DU – cynnydd o dros bedair gwaith mewn pedair mlynedd – sy'n recriwtio plant bregus mor ifanc a 13 oed[100]. Mae masnachu pobl yn rhan o'r math hwn o drosedd a chamdriniaeth, ac mae mwy o blant yn cael eu galw'n droseddwyr am droseddau sy'n ymwneud â chyffuriau[101]. Ceir pryderon bod plant bregus sydd o bosib wedi dioddef lefelau sylweddol o drawma ac heb gael cefnogaeth oddi wrth wasanaethau statudol o ganlyniad i drothwyon cymhwysedd uchel, yn cael eu galw'n droseddwyr am gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol, yn hytrach na chael eu ystyried i fod yn ddioddefwyr camfanteisio rhywiol[102]. Mae diffyg rhwydweithiau cefnogi gan nifer ac maent yn cael eu targedu'n uniongyrchol gan grwpiau troseddol. Yn aml, nid yw llawer o blant sydd mewn perygl o gamfanteisio troseddol neu rywiol ar blant yn cael eu clywed, nac wedi derbyn gweithiwr cymdeithasol penodol[103].

Cw – A wnaiff Lywodraeth Cymru

- Weithio gyda chyrff cyhoeddus i sicrhau y bydd cynnydd mewn gwaith diogelu er mwyn atal plant rhag dioddef o gamfanteisio troseddol neu rywiol?

Arferion niweidiol

Er bod Pwyllgor y CU wedi croesawu gweithrediad y Ddeddf Trosedd Ddifrifol (2015)[104] , sy'n galluogi'r llysoedd i gyhoeddi gorchmynion amddiffyn er mwyn diogelu dioddefwyr anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) sy'n blant (boed hynny'n rhai sydd eisoes wedi dioddef neu mewn perygl), ceir pryderon parhaus am y nifer o blant a effeithir gan arferion niweidiol, gan gynnwys FGM, trais yn seiliedig ar anrhydedd, a phriodas orfodol. Er nad yw'r ystadegau'n adlewyrchu'r gwir nifer, maent yn dangos bod 1,196 achos o briodas orfodol wedi'u hadnabod yn 2017, gyda 30% o'r dioddefwyr o dan 18, ac 16% o'r rheini o dan 16[105]. Amcangyfrifir bod 144,000 o ferched o dan 18 mewn perygl o FGM yn y DU, gyda'r mwyafrif o achosion yn debyg o ddigwydd cyn bod plentyn yn 8 oed[106]. Amcangyfrifir bod 144,000 o ferched o dan 18 mewn perygl o FGM yn y DU, gyda'r mwyafrif o achosion yn debyg o ddigwydd cyn bod plentyn yn 8 oed.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod mesurau ataliol yn cael eu cryfhau er mwyn mynd i'r afael a phob arfer niweidiol yn erbyn plant; bod gwaith codi ymwybyddiaeth yn digwydd ymysg y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, a bod gwelliant mewn casglu data?

98 Hallet, S. et al (2019) Keeping Safe Prifysgol Caerdydd
99 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Barnados Cymru
100 BBC Wales (2018) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-44127068
101 Guardian (2018) Rise in drug arrests
102 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Llamau
103 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Action for Children
104 Deddf Trosedd Ddifrifol (2015)
105 Y Swyddfa Gartref (2018) Forced Marriage Unit Statistics 2017
106 City University (2015) Prevalence of FGM in England and Wales

Camdriniaeth Ddomestig

Mae tystiolaeth amlwg bod dioddef camdriniaeth ddomestig yn y cartref yn cael effaith hirdymor, niweidiol ar ddatblygiad iechyd meddwl a chorfforol plentyn, a gall gael goblygiadau mewn ymddygiad seicolegol ac iechyd pan yn oedolyn.

Cynyddodd graddfeydd o gamdriniaeth ddomestig a adroddir o 83% dros y 4 blynedd diwethaf[107], gyda phlant yn ddioddefwyr ac yn dystion. Amcangyfrifir bod o leiaf 130,000 o blant yn byw mewn cartrefi y'i hystyrir i fod mewn 'perygl uchel' o gamdriniaeth ddomestig yng Nghymru a Lloegr[108]. Dengys ymchwil y DU bod 12% o blant dan 11 oed ac 17.5% o unigolion rhwng 11-17 oed wedi bod yn dystion i gamdriniaeth ddomestig rhwng oedolion yn eu cartref yn ystod eu plentyndod[109]. Yn ystod cyfnod clo COVID-19, bu pryderon bod lleisiau plant yn cael eu colli a bod plant yn cael eu dieithrio oddi wrth darparwyr cefnogaeth ac yn cael eu gadael mewn sefyllfaoedd a oedd o bosibl yn beryglus[110]. Gyda gwasanaethau cyffredinol yn methu â gweld plant, tyfodd y pwysau ar wasanaethau arbenigol a welodd gynnydd mewn galw. Bu cynnydd hefyd mewn galwadau i linellau cymorth[111].

Despite W/Government's ground-breaking legislation[112], implementation has been slow, resources limited with a lack of frontline services impacting on delivery. There is insufficient provision of services for child survivors across Wales. Specialist VAWDASV services report a lack of funding for this specific work, with some areas reporting little to no coverage.

CSO mapping of specialist DA service provision for children confirms the urgent need for resources to meet need[113]. During 2018/19, 4,263 children were known to access some form of specialist VAWDASV service in Wales, compared to the estimated 18,487 children who experience abuse in a year. It is estimated that 77% of children impacted by DA had no specialist support[114].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod y sector VAWDASV yn cael ei ariannu'n gynaliadwy ac yn addas er mwyn darparu cefnogaeth i bob plentyn sydd mewn angen, gan gynnwys gweithwyr plant mewn llochesi, a chefnogaeth therapiwtig i wella?

Bwlio

Gall goblygiadau bwlio fod yn rhai pellgyrhaeddol, gyda phlant gyda nodweddion ac o gefndiroedd penodol mewn perygl mwy[115]. Croesawn ganllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru, sy'n ystyried mathau amrywiol o fwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig, rhywiol a hiliol, a sy'n cynnig cefnogaeth manwl i ysgolion, rhieni a phlant, gyda phwyslais ar fodelau ataliol i ysgolion gael eu mabwysiadu. Fodd bynnag, mae angen gweithredu'n fwy pendant i atal bwlio, gan gynnwys bwlio ar-lein[116] yn ogystal â monitro'r ddyletswydd

107 BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50565513 -Ar draws 4 llu Heddlu Cymru, cododd cyfraddau trais domestig o 18,960 yn 2015-16 i 41,532 in 2018-19

108 SafeLives (defnyddiwyd 2020)

109 Radford, L. et al (2011) Child abuse and neglect in the UK today Llundain: NSPCC

110 Cymorth i Ferched Cymru (2020) Tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i effaith COVID-19

111 NSPCC (2020) The impact of the coronavirus pandemic on child welfare: domestic abuse - Cododd nifer y galwadau i linell gymorth yr NSPCC ynghylch trais domestig o gyfartaledd o 140 gwaith yr wythnos cyn y cyfnod clo, i gyfartaledd o dua 185 gwaith yr wythnos ers i ganllawiau aros adref y Llywodraeth gael eu cyhoeddi, gyda chwnsela Childline am drais domestig yn cynyddu o 50 i 65 gwaith yr wythnos.

112 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015

113 Cymorth i Ferched Cymru (2019) Mae Plant yn Bwysig

114 Ibid

115 Er enghraifft, mae 54% o blant LHDT a 73% o blant traws yn wynebu bwlio mewn ysgolion - Stonewall Cymru (2017) Adroddiad Ysgol Cymru, Gweler hefyd Comisiynydd Plant Cymru (2017) Stori Sam: Gwrando i brofiadau plant a phobl ifanc o fwlio yng Nghymru

116 Gweler ystadegau gan yr ONS (2020) sy'n dangos bod bron 1 ymhob 5 o blant wedi dioddef rhyw fath o fwlio ar-lein yn 2019, ymysg rhybuddion bod y broblem wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod clo COVID-19.

statudol a roddir ar ysgolion i adrodd am achosion[117].

Cw – A wnaiff Lywodraeth Cymru

- Sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion yn cael eu gweithredu'n effeithiol; bod achosion yn cael eu hadrodd yn gyson a bod athrawon yn derbyn hyfforddiant gorfodol ar fynd i'r afael â phob math o fwlio?

Awyrgylch y Teulu a Gofal Amgen

Gofal plant a chefnogaeth yn y blynyddoedd cynnar

Mae gan Gymru system Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar wedi'i rhannu, gyda gofal plant yn canolbwyntio ar gefnogaeth cyflogaeth i rieni (gydag amrywiaeth o fudd-daliadau ar ochr y cyflenwad a'r galw) a darpariaeth ar ochr y cyflenwad o addysg gynnar gyffredinol (Y Cyfnod Sylfaen) i blant oed 3-4[118].

Mae gan nifer o deuluoedd fynediad i ofal plant am ddim neu â chymhorthdal, ond mae argaeledd yn gyfyngedig ac mae'r ddarpariaeth yn gostwng[119].

Mae'r Cynnig Gofal Plant[120] a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn rhaglen Cymru gyfan i gefnogi rhieni sy'n gweithio, gyda dros 15,000 o blant oed 3-4 bellach yn manteisio ar ofal plant am ddim. Er bod y gwerthusiad diweddar[121] wedi canfod bod y Cynnig wedi bod o gymorth mwyaf i deuluoedd ag incwm isel, ceir peth dryswch ynghylch cymhwystra ac ariannu. Mae argaeledd yn anghyson iawn ar draws y wlad, gyda nifer o deuluoedd yn cael eu heithrio. Nid yw galwadau Sefydliadau Cymdeithas Sifil i'r Cynnig gael ei ymestyn i rieni nad ydynt yn gweithio wedi cael eu derbyn eto.

Mae gan Gymru hefyd raglen Dechrau'n deg, sef rhaglen i blant oed 0-3 y mae eu teuluoedd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig penodol. Mae tua 25% o blant dyflwydd oed yn yr ardaloedd penodedig yn derbyn gofal plant rhan amser wedi'u ariannu ar ochr y cyflenwad yn rhan o becyn mwy eang o gefnogaeth magu plant a datblygiad. Fodd bynnag, mae tua 44% o blant o gefndiroedd lle mae amddifadedd incwm yn anghymwys gan eu bod yn bwy y tu allan i ardaloedd daearyddol penodol[122].

Ar y cyfan, nid yw'r system gofal plant yn cyrraedd ei llawn botensial, gyda rhwystrau'n parhau o ran digonedd, hygyrchedd, safon, a chost[123]. Dylai darparu system Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar integredig ac o safon uchel fod yn rhan greiddiol o'r broses ailadeiladu o effeithiau economaidd COVID-19, i helpu atal plant difreintiedig rhag cwympo nôl o ran eu datblygiad a'u haddysg.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod gan bob plentyn fynediad i ofal plant o safon uchel, fel rhan o system cydlynol ac integredig?

117 Llywodraeth Cymru (2019) Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

118 Grwp Monitro CHPCU Cymru a Plant yng Nghymru (2020) Adroddiad Thematig: Y Blynyddoedd Cynnar (I'w gyhoeddi)

119 Sefydliad Joseph Rowntree (2020) Poverty in Wales 2020

120 Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn cynnig cymysgedd o 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim neu addysg gynnar i blant oed 3 neu 4 am 48 wythnos y flwyddyn.

121 Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 2

122 Achub y Plant (2018) Little Pieces, Big Picture

123 Gweler, er enghraifft, y Coram Family and Childcare Trust (2020) Childcare Survey 2020

- Ehangu'r meini prawf i'r Cynnig Gofal Plant a rhaglen ofal plant Dechrau'n Deg, er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n byw mewn tlodi yn gallu cael mynediad i ofal plant am ddim?

Gofal teulu

Mae plant yn ffynnu mewn amgylchedd cartref hapus ac iachus, gyda pherthynas a chysylltiad cryf rhwng oedolion a phlant. Mae COVID-19 wedi amlygu'n negyddol yr heriau a wynebir, hynny yw bod nifer o blant yn byw mewn amgylchiadau cartref llai na delfrydol. Gofynna hyn am ymateb mwy holistaidd na dibynnu ar ysgolion a lleoliadau gofal plant i fod yn ateb i anawsterau teuluol mwy eang.

Mae gan deuluoedd fynediad i ystod o wasanaethau cefnogaeth i deuluoedd cyffredinol ac arbenigol, yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a gwaith ymatal, ac yn darparu cefnogaeth yn seiliedig ar gadernid er mwyn adeiladu a chreu teuluoedd sy'n wydn ac yn annibynnol[124]. Mae'r gwasanaethau hyn, law yn llaw ag adnodd genedlaethol sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i rieni[125] yn creu cyswllt hollbwysig rhwng amgylchedd y cartref, gwasanaethau gofal statudol a'r ddarpariaeth addysg. Fodd bynnag, dylid gwneud mwy i greu system integredig sy'n agosach at deuluoedd er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn ystod gyfan o gefnogaeth sy'n ymateb i'w hanghenion.

Mae gwasanaethau plant statudol wedi wynebu toriadau cyllidebol dybryd dros y degawd diwethaf. Er bod awdurdodau lleol wedi derbyn cyllid ychwanegol i'w cynorthwyo i fynd i'r afael ag effaith COVID-19, ceir pryderon ynghylch eu gallu i ymateb i oblygiadau llawn yr argyfwng, ar ben y nifer o achosion gwaith cymdeithasol sylweddol sydd ganddynt eisoes.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i alluogi cyrff cyhoeddus i sicrhau bod plant bregus yn derbyn cefnogaeth amserol ac addas, a bod ganddynt fynediad cyfartal at wasanaethau o safon uchel i atal anghenion rhag dwysáu?

Plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal

Yn 2019, roedd 6,486 o blant yn derbyn gofal gan y wladwriaeth yng Nghymru, cynnydd o 7% ar y flwyddyn flaenorol, a 37% dros y 10 mlynedd diwethaf. Roedd 71% mewn lleoliadau gofal maeth ac roedd 66% yn derbyn gofal o achos camdriniaeth neu esgeulustod[126]. Bu cynnydd serth yn y gyfradd o fabanod newydd-anedig oedd yn destun i achosion cyfreithiol[127]. Mae'r plant hyn yn fwy tebygol o ddod o gymunedau difreintiedig[128] gyda throiadau i fudd-daliadau a llymder yn cael eu hamlygu fel prif achos y cynnydd hwn[129]. Gallai'r twf yn y nifer hefyd fod o ganlyniad i arfer gwell ac ymwybyddiaeth gynyddol o gamdriniaeth ac esgeulustod, a chyfrifoldeb asiantaethau i ymateb yn addas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau nifer y plant mewn gofal yn ddiogel, cam a groesawyd yn ofalus. Fodd bynnag, dylid gwneud penderfyniadau er lles y plentyn ac yn seiliedig ar yr angen i wella

124 Er enghraifft, mae Teuluoedd yn gyntaf yn rhaglen genedlaethol sy'n darparu systemau cefnogaeth aml-asiantaeth gyda phwyslais eglur ar ymyrraeth gynnar,

125 'Magu Plant: Rhowch amser iddo' gwefan sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth ynghylch magu plant, gan hybu manteision rhianta cadarnhaol

126 Llywodraeth Cymru (2019) Ystadegau arbrofol Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol (Saesneg yn Unig)

127 Nuffield Family Justice Observatory (2019) 'Born into Care: new-borns and infants in care proceedings in Wales', mae'r gyfradd wedi dyblu rhwng 2015 a 2018 ac roedd babanod o dan 1 flwydd oed yn cyfrif am 30% o achosion Adran 31 yng Nghymru

128 Elliott, M. & Scourfield, J. (2017) Identifying and Understanding Inequalities in Child Welfare Intervention Rates: Comparative studies in four UK countries. Single country quantitative study report: Wales - Mae plant 16 gwaith yn fwy tebygol o orfod gael eu cymryd dan ofal os ydynt yn dod o'r 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig na'r 10% o ardaloedd lleiaf difreintiedig.

129 BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-47190227

canlyniadau[130].

Dewis lleoliad, sefydlogrwydd, a digonedd

Mae gan bob plentyn hawl i fywyd teuluol, ac mae paru addas a sefydlogrwydd lleoliad gyda theulu yn allweddol i helpu gwella canlyniadau addysgol ac iechyd i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal[131]. Mae bron i 1 ymhob 10 o blant yn profi 3 lleoliad neu fwy bob blwyddyn[132], gyda thoriadau teuluol yn niweidiol ac yn amharu ar y plentyn a'u teulu, a'u gallu i ffurfio perthnasau[133].

Ni ddylai penderfyniadau dros leoliadau gael eu dylanwadu gan adnoddau, a dylent gael eu llunio gan ystyried safbwyntiau, dyheadau a theimladau'r plentyn, yn ogystal â'r dymuniad i gael sefydlogrwydd. Ceir angen am fwy o leoliadau addas, a dylid ymgynghori'n addas â phlant ar bob opsiwn addas cyn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth[134]. Mae adroddiadau o blant yn cael eu gosod mewn llety anghofrestredig yn codi pryder arbennig[135]. Os am roi diwedd i leoliad, dylid cynnal adolygiad lle y cofnodir safbwyntiau'r plentyn[136].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gymryd camau brys i wella sefydlogrwydd lleoliadau hirdymor, gwella dewis a llais y plentyn, a chynyddu lleoliadau mewn ardaloedd lleol?

Rhianta corfforaethol

Dylid cryfhau trefniadau rhianta corfforaethol gan sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn rhannu cyfrifoldeb i gefnogi plant yn eu gofal, gan gynnwys cymryd rôl flaenllaw mewn cynllunio gofal; gan gwrdd â'u gofynion addysgol, iechyd, cymdeithasol a chyflogaeth, a chynnwys Sefydliadau Cymdeithas Sifil a phlant fel partneriaid. Dylid cyflwyno deddfwriaeth rhianta corfforaethol i ymestyn cyfrifoldeb i bob corff cyhoeddus yng Nghymru[137].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Introduce legislation, alongside guidance, training and monitoring arrangements, to extend corporate parenting responsibility to all public bodies in Wales?

Iechyd meddwl

Dengys gwaith ymchwil bod plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn dioddef o gyfraddau uwch o broblemau iechyd meddwl na'r boblogaeth gyffredinol[138], gyda phrofiad cynnar o gamdriniaeth ac esgeulustod yn gadael effaith andwyol arnynt. Mae hyn yn arwain at ystod o heriau iechyd meddwl[139], all bara trwy gydol bywyd plentyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau cadarnhaol er mwyn gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl ar gael i blant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal, gyda gofyn i asesiadau iechyd meddwl gael eu cynnal pan fo plentyn yn cael ei gymryd mewn i awyrgylch gofal. Fodd bynnag, dengys gwaith ymchwil nad yw asesiadau'n ddigonol, bod arweiniad yn brin a bod angen hyfforddiant ar staff[140].

130 Tystiolaeth gan NSPCC Cymru
131 Er enghraifft, gweler CASCADE (2015) Understanding the educational experiences and opinions, attainment, achievement and aspirations of looked after children, Prifysgol Caerdydd
132 Llywodraeth Cymru (2019) Ystadegau arbrofol Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol (Saesneg yn Unig)
133 Park, M et al (2020) Beth mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd yn ei feddwl o ofal? Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
134 Gweler tystiolaeth cymdeithas sifil i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoedd Senedd Cymru (2017/18) Archwiliad i brofiad plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal
135 Er enghraifft, gweler TGP Cymru (2019) Out of sight, out of rights?
136 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Rwydwaith Maethu Cymru
137 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Voices from Care Cymru
138 NSPCC Cymru a Voices from care Cymru (2019 Listen. Act. Thrive.
139 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Voices from Care Cymru
140 NSPCC Cymru a Voices from care Cymru (2019 Listen. Act. Thrive.

Mae plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal wedi nodi bod iechyd meddwl yn fater brys, gydag adroddiadau yn sôn bod gwasanaethau cefnogaeth emosiynol a therapiwtig yn brin. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i CAMHS (Timau Iechyd Meddwl Cymunedol)[141], a gymhlethir ymhellach gan restrau aros hir a throthwy cyfeirio uchel. I rai plant, byddai cael mynediad at gefnogaeth eirioli mewn lleoliadau iechyd meddwl o fantais arbennig i helpu plant allu deall y system, gan sicrhau bod eu dymuniadau'n cael eu mynegi ac i helpu atal anghenion rhag gwaethygu[142]. Dylai cynghorwyr personol hefyd flaenoriaethu cefnogaeth i iechyd meddwl y plentyn fel dangosydd perfformiad allweddol[143].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gyhoeddi arweiniad manwl yn ogystal â chynnig hyfforddiant i weithwyr iechyd, er mwyn gwella'r asesiad iechyd meddwl cychwynnol, a monitro cynnydd?
- Sicrhau bod pob plentyn sydd mewn gofal yn cael eu hasesu pan fyddant yn cael eu derbyn mewn i ofal; yn derbyn mynediad amserol i gefnogaeth eiriolaeth a gwasanaethau therapiwtig addas, gan gynnwys CAMHS pan fo angen, gan sicrhau bod anghenion iechyd meddwl yn cael eu cwrdd wrth iddynt adael gofal?

Gwybodaeth, Ymgysylltu ac Eiriolaeth

Dylai plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal gael gwybodaeth gywir a manwl er mwyn gwneud penderfyniadau doeth yn ystod eu cyfnod mewn gofal. Er hynny, maent yn aml yn profi rhwystrau wrth geisio cael gwybodaeth ac ymgysylltu â staff penodol[144].

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd wrth sicrhau bod gan bob plentyn sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal fynediad i eiriolaeth statudol drwy Ddull Cenedlaethol. Dylai hyn gael ei sefydlu fel arfer, ei fonitro a'i ariannu'n addas. Dylid cryfhau trefniadau eiriolaeth mewn lleoliadau gofal preswyl hefyd[145].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod gan bob plentyn sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal fynediad i eiriolaeth statudol, gan gynnwys y rheini mewn lleoliadau gofal preswyl, a bod adnoddau digonol ar gael i gwrdd â'r galw?

Cynnal Perthnasau Iach

Mae plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn elwa o sicrwydd a diogelwch, ac mae angen perthnasau cryf a sefydlog arnynt gyda chyrff cyhoeddus, gofalwyr maeth presennol a chyn-ofalwyr[146], faelodau o'r teulu a ffrindiau er mwyn meithrin synnwyr gwell o hunaniaeth a pherthyn. Ni ddylid gwahanu unrhyw blentyn oddi wrth eu brodyr na'u chwiorydd, heblaw fod hynny er eu lles nhw, a dylid rhoi'r un pwyslais ar gadw cysylltiadau gyda brodyr a chwiorydd ag y rhoddir i rieni genedigol. Dylai cyfrifoldeb fod ar wasanaethau maethu i hybu perthnasau personol a chyswllt uniongyrchol rhwng y plentyn a phobl sydd â pherthynas barhaus ag e/hi[147].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Alluogi pob plentyn sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal i gynnal perthnasau iach gyda'r rheini sydd bwysicaf iddynt?

---

141 Arolygiaeth Gofal Cymru (2019) Adroddiad Trosolwg Cenedlaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal

142 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan NYAS Cymru Gweler hefyd Senedd Cymru (2018) Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cadernid Meddwl

143 NYAS (2019) Looked after Minds

144 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Tom Jones (Swyddog Hawliau Plant a Chyfranogiad, Abertawe)

145 Tystiolaeth gan TGP Cymru

146 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Rwydwaith Maethu Cymru

147 Er enghraifft, gweler ymgyrch y Rhwydwaith Maethu, Keep Connected campaign yn galw ar lywodraethau i gefnogi plant a geir eu maethu i gefnogi eu perthnasau pwysicaf

Gofal gan Berthynas

Mae plant sy'n derbyn gofal gan berthynas yn aml wedi cael profiad niweidiol yn ystod plentyndod, a phrofiadau tebyg i blant sydd wedi gorfod mynd i leoliadau maethu[148]. Mae gan nifer ohonynt anghenion dwys, problemau iechyd tymor hir, ac anableddau[149]. Mae oddeutu 10,000 o blant yn derbyn gofal gan berthynas yng Nghymru. Mae 95% ohonynt yno yn anffurfiol, ac o ganlyniad maent yn derbyn llai o gefnogaeth gan fod nifer ohonynt yn anhysbys i awdurdodau lleol[150]. Dengys gwaith ymchwil bod plant sy'n dioddef o amddifadedd lluosog dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn derbyn gofal gan berthynas na phlant nad ydynt yn dioddef o amddifadedd lluosog[151]. Yn ôl gwaith ymchwil, mae'r gefnogaeth a gynigir i ofalwyr sy'n berthnasau yn brin ac yn annigonol i gwrdd â'u hanghenion[152].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o blant sy'n derbyn gofal gan berthynas, gan sicrhau bod y gefnogaeth sy'n cael ei thargedu yn gydradd â'r hyn a gynigir i blant mewn trefniadau gofal eraill?

Trosglwyddo o leoliadau gofal

Mae plant â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu prosesau trosglwyddo i fywyd oedolyn sy'n fyrrach ac yn gyflymach nag arfer[153]. Maent yn fwy tebygol na'r mwyafrif o ddioddef digartrefedd, gyda 33% yn ddigartref o fewn y dwy flynedd cyntaf ar ôl gadael gofal[154]. TDylai trosglwyddo o leoliadau gofal fod yn llyfn, yn seiliedig ar hawliau ac yn canolbwyntio ar sefydlogrwydd o ran llety[155]. Dylid paratoi plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn addas gyda llwybrau eglur i lety diogel, sefydlog a pherthnasol, sy'n cyfateb i'w dewis a'u hanghenion. Dylid rhoi cyngor a chefnogaeth addas a chyson iddynt, gan gydnabod ei fod yn bosibl y bydd angen cefnogaeth arnynt unwaith iddynt adael[156]. Dylid sicrhau cyllido cynaliadwy i prosiectau atal digartrefedd sydd wedi'u gwerthuso'n drylwyr.

Mae gan rhaglen Pan fydda i'n barod[157] Llywodraeth Cymru botensial mawr, ond mae cyfranogiad yn y rhaglen yn isel[158] ac nid yw'n berthnasol i blant mewn lleoliadau preswyl. Ceir pryderon parhaus bod nifer o blant oed 16+ yn cael eu gosod mewn llety nas rheolir sy'n lled-annibynnol, er gwaethaf y ffaith eu bod yn fregus[159], Ceir pryder hefyd ynghylch cynnydd y broses o gael gwared ar ddefnydd llety gwely a brecwast yn arafu, a hyn o ganlyniad i'r pwysau cynyddol ar awdurdodau lleol wedi'r cyfnod clo[160].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Hybu'r cynllun Pan fydda i'n barod a chynyddu opsiynau tai â chymorth i blant sy'n gadael trefniadau gofal preswyl?
- Cael gwared o'r defnydd o westai gwely a brecwast a llety nas reolir i blant sy'n gadael gofal?

148 Selwyn, J a Nandy, S., (2014) 'Kinship Care in the UK: Using Census Data the Estimate the Extent of Formal and Informal Care by Relatives' Child and Family Social Work 19 44-54

149 Wiedasja, D.et al (2017) Children Growing up in the Care of Relatives in the UK, Bristol: Hadley Centre for Adoption and Foster Care Studies.

150 Nandy, S. Selwyn, J. Farmer, E. and Vaisey, P. (2011) Spotlight on Kinship Care: Using Census Microdata to Examine the Extent and Nature of Kinship Care in the UK at the Turn of the Twentieth Century, Bryste: The Hadley Centre a Phrifysgol Bryste.

151 ibid

152 Wellard, S., Meakings, S., Farmer, E., & Hunt, J. (2017). Growing Up in Kinship Care: Experiences as Adolescents and Out comes in Young Adulthood. Grandparents Plus

153 Er enghraifft, gweler Comisiynydd Plant Cymru (2017) Breuddwydion Cudd

154 Stirling T, (2018) Youth Homelessness and Care Leavers: mapping interventions in Wales

155 Schwan K. et al. (2018) Preventing Youth Homelessness; An International Evidence Review

156 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Llamau Gweler hefyd Dileu Digartrefedd Cymru Don't Let Me Fall through the Cracks

157 Pan fydda i'n barod - mae hyn yn galluogi plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal i aros gyda'u teulu maeth nes eu bod yn oed

158 Roedd tystiolaeth a dderbyniwyd gan y Rhwydwaith Maethu yn dangos mai dim ond 16% o'r rheini a ymatebodd i arolwg (36 o rieni maeth) oedd wedi cymryd lleoliad Pan fydda i'n barod

159 BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50748323

160 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan NSPCC Cymru

Gofalwyr ifanc

Mae gofalwyr ifanc yn chwarae rôl sylweddol yn gofalu am aelodau o'r teulu, sy'n cynyddu'r pwysau ar eu haddysg, eu hiechyd a'u bywyd cymdeithasol. Mae tua 30,000 o ofalwyr o dan 25 oed yng Nghymru[161], er bod diffyg data dibynadwy neu fecanwaith olrhain ar gael. Mae nifer o ofalwyr ifanc yn parhau'n gudd. Nid ydynt yn derbyn cydnabyddiaeth allanol ac nid yw eu hanghenion bob amser yn cael eu hasesu[162] iddynt wedyn fod yn gymwys i dderbyn cefnogaeth seibiant.

Mae cyfyngiadau cyfnod clo COVID-19 wedi dwysáu unigedd ac wedi cynyddu cyfrifoldebau gofalu, gyda nifer wedi'u hynysu ar wahân o'r teulu estynedig a rhwydweithiau cefnogaeth, wrth i wasanaethau cymorth seibiant gael eu lleihau. Bydd nifer wedi dioddef profedigaeth deuluol a thrawma, ac wedi wynebu gofynion sy'n gwrthdaro yn ystod y cyfnod hwn.

Mae darpariaeth addysgol mewn ysgolion yn amrywio'n sylweddol[163]. Gall adnabyddiaeth gynnar drwy athro penodol weithredu cefnogaeth addas. Croesawn bod y Llywodraeth wedi adnewyddu eu hymrwymiadau yn y Cynllun Gofalwyr cenedlaethol arfaethedig, gan gynnwys cardiau adnabod i ofalwyr ifanc[164].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Hybu rôl gofalwyr ifanc, gan sicrhau bod athro penodol ymhob ysgol a bod pob plentyn yn derbyn asesiad iechyd blynyddol a cherdyn adnabod?

Anabledd, Iechyd a Llesiant Sylfaenol

Plant anabl

Yn rhy aml, ystyrir plant anabl yng nghyd-destun eu hanabledd a'u hanghenion ychwanegol yn unig, yn hytrach na fel plant gyda hawliau unigol i gael mwynhau'r un pleserau a profiadau a'u cyfoedion. Mae nifer wedi wynebu heriau arbennig o ganlyniad i COVID-19 sydd wedi amharu ar eu cefnogaeth. Mae hyn wedi arwain at deimladau o unigedd, anawsterau llesiant emosiynol a datblygiad addysgol, yn ogystal ag effaith oedi mewn cael diagnosis.

Er y dylai plant anabl allu mynychu addysg brif-ffrwd yn dechnegol, nid ydynt wedi'u integreiddio'n llawn i amgylchedd yr ysgol gyfan, gyda nifer o rwystrau i addysg gynhwysol yn amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys lleoedd nad ydynt yn hygyrch[165], a chyfyngiadau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn rhai gwersi a chyfleoedd. Ceir diffyg ymwybyddiaeth am anableddau a chyfleoedd adeiladu gallu ymysg staff a disgyblion ysgol[166].

161 Llywodraeth Cymru (2020) Ymgynghoriad ar Gynllun Cenedlaethol i Ofalwyr

162 O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2016), rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio mewn partneriaeth i asesu anghenion gofalwyr ifanc a chytuno ar gynllun cymorth ar eu cyfer

163 Estyn (2019) Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru

164 Llywodraeth Cymru (2020) Datganiad Ysgrifenedig

165 Comisiynydd Plant Cymru (2018) Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal

166 Tra bod y cwricwlwm newydd sydd i ddod yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod plant yn deall eu hawliau a hawliau eraill, gwrthodwyd galwadau i ymwybyddiaeth am anableddau ffurfio ran orfodol o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn ysgolion – Tystiolaeth a dderbyniwyd yn dilyn gweithdy ar blant anabl, wedi'i arwain gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru. Gweler hefyd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Adele Rose, yn pwysleisio'r angen am fwy o hyfforddiant arbenigol i athrawon a'r angen am addysg gynhwysol.

Mae diwygiadau i drefniadau addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol[167] yn dod yn ei blaen, ac fe groesawir agweddau ar y diwygiadau hyn[168] , Fodd bynnag, mae plant yn dal i wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at gefnogaeth addas ac amserol.

Dylai plant anabl gael cefnogaeth well er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed; dylent gael mynediad i gyngor a gwybodaeth sydd wedi'u teilwra'n addas, a chael bod yn rhan o bob penderfyniad sy'n effeithio arnynt, yn enwedig yn ystod cyfnodau trosglwyddo[169]. Yn rhy aml, nid ydynt yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal meddygol, eu triniaeth na'u cefnogaeth gofal cymdeithasol. I blant ag anableddau dwys ac anghenion cyfathrebu difrifol, dylid darparu mynediad cyson i wasanaethau cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar y person, gan gynnwys trefniadau eirioli arbenigol, i'w helpu i fynegi dewisiadau ac ystyried opsiynau.

I blant â nam ar eu golwg, ceir prinder dybryd o wasanaethau arbenigol i'w cefnogi[170] er bod deddfwriaeth yn cydnabod eu pwysigrwydd i alluogi plant i fyw mor annibynnol a phosib[171]. Mae plant anabl wedi'u gorgynrychioli mewn teuluoedd incwm isel[172], ac yn wynebu rhwystrau wrth geisio defnyddio trafnidiaeth a chyfleoedd chwarae a hamdden.

Dylid gwella ar allu rieni/gofalwyr i gael mynediad at wybodaeth iechyd[173] ac addysg i'w cynorthwyo i roi cefnogaeth i'w plant. Mae angen gwelliannau er mwyn mynd i'r afael ag oedi mewn cael mynediad at wasanaethau ac offer, sy'n galluogi plant anabl i adeiladu eu hyder, dod yn fwy annibynnol, a gwireddu eu potensial.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gefnogi plant anabl sydd wedi wynebu heriau penodol o ganlyniad i COVID-19, gan gynnwys sut y gellir lliniaru risgiau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig oedi mewn diagnosis a lleihad mewn cefnogaeth?
- Sicrhau bod addysg yn gwbl gynhwysol; bod sgiliau a chymwysterau athrawon i gefnogi plant anabl yn cael eu gwella, a'u bod yn mynd i'r afael â bylchau ac oedi mewn cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys darpariaeth arbenigol?
- Sicrhau bod diwygiadau i ADY yn cael eu gweithredu'n effeithiol, gyda chyllido digonol, a bod pob plentyn sy'n gymwys i dderbyn Cynllun Datblygu Unigol yn derbyn un?

Anghyfartaleddau iechyd

Mae amodau a'r amgylchiadau y mae plant yn byw ynddynt yn dylanwadu ar eu hiechyd. Er y ceir diffyg data wedi'i dad-gyfuno i helpu adnabod grwpiau penodol o blant sy'n wynebu canlyniadau iechyd gwaeth, dengys gwaith ymchwil bod cydberthyniad cryf rhwng anghydraddoldebau iechyd ag anfantais economaidd-gymdeithasol ar draws ystod o ddangosyddion, ac mae'r bwlch gyda chyfoedion yn tyfu[174].

Mae'r cyfraddau marwolaeth babanod ar gyfer plant dan 1 mlwydd oed wedi codi[175], gyda'r cyfraddau uchaf wedi'u cofnodi yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig[176].

---

167 Llywodraeth Cymru (2020) Rhaglen Trawsnewid System Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gweler hefyd SNAP Cymru – Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

168 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru (defnyddiwyd yn 2020) Additional Learning Needs

169 Comisiynydd Plant Cymru (2018) Peidiwch dal nôl

170 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Cŵn Tywys Cymru sy'n galw ar wasanaethau galluogi i blant â nam ar eu golwg i fod ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru

171 Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2016)

172 Sefydliad Joseph Rowntree (2020) Poverty in Wales 2020

173 Er enghraifft, gwybodaeth ar faeth a bwydo o'r fron i rieni plant anabl

174 RCPCH Cymru (2020) Cyflwr Iechyd Plant

175 ONS – yn 2018, roedd cyfraddau marwolaethau babanod yn 3.8 marwolaeth ymhob 1,000 genedigaeth fyw yng Nghymru a Lloegr, o gymharu â 3.9 y flwyddyn gynt ond yn sylweddol uwch na'r gyfradd isaf o 3.6 a gafwyd yn 2014

176 ONS – yn 2018, roedd cyfraddau marwolaethau babanod yn 5.7 ymhob 1,000 genedigaeth fyw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Mae cyfraddau marwolaeth plant bellach 70% yn uwch yn y grwpiau mwyaf difreintiedig[177] ac mae cyfraddau disgwyliad oes bellach yn gostwng[178].

Mae amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn ffactor amlwg o ran gordewdra ymysg plant, gyda'r bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn codi o 4.7% i 6.2%[179], tra bod cyfraddau gordewdra ar lefelau lleol yn cyrraedd 17.5%[180]. Mae 27.1% o blant 4-5 mlwydd oed yng Nghymru yn ordew o gymharu â 22.6% yn Lloegr[181]. Ceir cydberthyniad cryf rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol a phydredd dannedd[182], cyfraddau ysmygu[183], bwyta llai o ffrwythau a llysiau[184], cymryd rhan mewn chwaraeon[185] , a chyswllt cynyddol â llygredd aer[186].

Mae'n galonogol bod cyfraddau beichiogi yn yr arddegau wedi gostwng yn sylweddol[187], bod addysg cydberthynas yn cael ei ddiwygio[188], bod deddfau arloesol wedi ymestyn gwaharddiadau ar ysmygu mewn ceir, ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae[189], a bod ymrwymiadau pellach i ddarparu amgylcheddau mwy diogel i blant wedi'u cyhoeddi[190].

EMae ymyrraeth gynnar, hybu ffyrdd iach o fyw ac atal iechyd gwael ymhlith pob plentyn a rhiant, yn enwedig o fewn y 1,000 diwrnod cyntaf, oll yn gofyn am lefelau digonol o fuddsoddiad i gefnogi partneriaid lleol er mwyn diwallu'r angen cynyddol. Mae angen gwybodaeth well ar unigolion i wella dealltwriaeth a helpu atal a rheoli cyflyrau iechyd[191]. Mae COVID-19 wedi amlygu hyn, gan ei fod wedi gwaethygu'r rhwystrau cyffredinol i gael mynediad at ofal sylfaenol a gwasanaethau gofal iechyd arbenigol, yn cynnwys gofal lliniarol[192] a gwasanaethau profedigaeth.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Fynd i'r afael â'r bwlch anghydraddoldebau drwy wellhau mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau gofal iechyd arbenigol ar gyfer plant?

Ymchwil Iechyd

Mae cyllid ymchwil Iechyd plant wedi bod yn gostwng bob blwyddyn ers 2011, gyda llai o fecanwaith i alluogi safbwyntiau plant i gael eu clywed wrth gynhyrchu ymchwil i'r cyflyrau sy'n effeithio arnynt[193]. Ceir prinder mewn paediatregyddion ymgynghorol academaidd yn y gweithlu.

177 RCPCH Wales – Cyflwr Iechyd Plant Plant oed 1-9
178 Prif Swyddog Meddygol Cymru (2019) Gwethfawrogi ein hiechyd: Adroddiad Blynyddol 2018/19
179 Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) Rhaglen Mesur Plant Cymru 2017/18 (ymysg plant oed 4-5)
180 ibid
181 ibid
182 Llywodraeth Cymru (2017) Symud Ymlaen i Wella Iechyd y Geg a Gwasanaethau Deintyddol yng Nghymru
183 Ash Cymru (defnyddiwyd yn 2020) https://ash.wales/prif-ystadegau-cymru/
184 Hewitt G., Anthony R., Moore G., Melendez-Torres G.J., Murphy S. (2019) Student Health and Wellbeing In Wales: Report of the 2017/18 Health Behaviour in School-aged Children Survey and School Health Research Network Student Health and Wellbeing Survey. Prifysgol Caerdydd, Caerdydd.
185 Chwaraeon Cymru (2018) Arolwg chwaraeon ysgol 2018: cyflwr y genedl
186 Llywodraeth Cymru (2020) Cynllun aer glan i Gymru
187 ONS (2018) Conceptions in England and Wales a RCPCH Cymru (2020) Cyflwr Iechyd Plant
188 Gweler adran ar Addysg
189 Llywodraeth Cymru (2020) Datganiad Ysgrifenedig - Bydd cyfyngiadau di-fwg presennol yn cael eu hymestyn i diroedd ysbytai, lleoedd chwarae cyhoeddus, lleoliadau gofal plant yn yr awyr agored a thiroedd ysgolion o 1 Mawrth 2021, o dan y ddeddfwriaeth bresennol
190 Gweler, er enghraifft, ganllawiau Llywodraeth Cymru (2019) 'Pwysau Iach, Cymru Iach'
191 Gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru (2019) A Healthier Wales
192 Dylai Llywodraeth Cymru weithredu argymhellion o'r Grwp trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol: Anghydraddoldebau mewn mynediad at ofal hosbis a lliniarol sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal lliniarol pediatrig. Mae'r argym hellion yn cynnwys: mynediad i wasanaethau y tu allan i oriau a chynyddu adnoddau i nyrsio cymunedol. Gweler hefyd dystiolaeth fanwl a dderbyniwyd gan Lynette Thacker (Nyrs Clinigol yn arbenigo mewn Gofal Lliniarol Pediatrig)
193 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Arch Noa, Ysbyty Plant Cymru

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Ddarparu cyllid digonol i gefnogi datblygiad ymchwil pediatrig, a sicrhau bod y gweithlu pediatrig academig yn ddigonol?

Bwydo o'r fron

Mae bwydo o'r fron yn bwysig i iechyd a datblygiad babanod, ac mae'n atal anghyfartaleddau iechyd. Er bod dros 60% o fenywod yn ceisio bwydo o'r fron, mae'r ffigwr hwn yn cwympo i 26% ar ôl 6 wythnos, gydag amrywiaethau sylweddol mewn cyfraddau ar draws Cymru[194]. Er gwaethaf cyhoeddi cynllun 5 mlynedd[195] sy'n argymell bod systemau'n cael eu sefydlu i gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data bwydo babanod yn gyson, mae gwaith casglu data yn parhau i fod yn anghyflawn ac yn anghyson[196].

Gwnaed peth cynnydd i reoleiddio'r farchnad amnewidion llaeth o'r fron[197], h, fodd bynnag nid oes rheolau i atal marchnata fformiwla hwyrach, llaeth wedi'i farchnata i blant dros flwydd oed, na boteli/tethau wedi cael eu gweithredu eto[198]. IO ran Achrediad Cyfeillgar i Fabanod mewn ysbytai, gwasanaethau mamolaeth a newydd-enedigol, a thrwy ymwelwyr iechyd, mae 78% o fabanod yn cael eu geni mewn unedau cyfeillgar i fabanod sydd wedi'u hachredu yng Nghymru[199]. Fodd bynnag, nid oes mandad llywodraethol i bod uned i ennill achrediad[200].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gymryd camau i gyflwyno, cyllido, monitro a gwerthuso eu cynllun cenedlaethol, gan sefydlu dull system gyfan i hybu a chefnogi bwydo o'r fron?

Iechyd meddwl

Mae adroddiad o bwys[201] wedi galw am newid sylweddol mewn gwasanaethau a chefnogaeth iechyd meddwl ac emosiynol i blant, gan gydnabod bod nifer yn ei chael yn anodd i gael mynediad at gefnogaeth yn ddigon cynnar er mwyn atal problemau rhag codi, a gwasanaethau arbenigol yn hwyrach ymlaen i atal anghenion rhag dwysáu. Er bod peth cynnydd wedi'i wneud, mae'n digwydd yn rhy araf[202], ac mae effaith COVID-19[203] wedi gwaethygu rhwystrau sydd eisoes yn bodoli. Mae disgwyl i angen gynyddu[204] gan effeithio'n anghyfartal ar y rhai mwyaf bregus[205] a'r rheini ag anawsterau sy'n bodoli eisoes[206]

194 Eida, T.J. & Kendall, S. (2019) Becoming Breastfeeding Friendly in Wales: Context, findings and recommendations
195 Llywodraeth Cymru (2019) Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd Cymru Gyfan ar Fwydo ar y Fron
196 Cesglir data ar efelychu ac amlder bwydo o'r fron gan bob Bwrdd Iechyd ar enedigaeth a 10-14 diwrnod, ond ni chesglir data ar 6-8 wythnos ac ar 6 mis yn rheolaidd
197 Mae'r DU wedi mabwysiadu'n rhannol God Rhyngwladol Marchnata Amnewidion Llaeth o'r Fron a phenderfyniadau Sefydliad Iechyd y Byd, er mwyn atal Marchnata llaeth fformiwla i fabanod a llaeth i fabanod sy'n cael eu marchnata fel bwyd at bwrpasau meddygol arbennig.
198 Canllaw i reolau marchnata llaeth fformiwla yn y DU http://www.babymilkaction.org/ukrules-pt1
199 Baby Friendly Accreditation Wales (defnyddiwyd yn 2020)
200 World Breastfeeding Trends Initiative UK Report (2016)
201 Senedd Cymru (2018) Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cadernid Meddwl
202 Senedd Cymru (2020) Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cadernid Meddwl, dwy flynedd yn ddiweddarach
203 Gweler Llywodraeth Cymru (2020) Adolygiad o effaith tarfu mawr ar les a iechyd meddwl plant a phobl ifanc
204 Er ei fod yn rhy gynnar i ddata swyddogol ddangos effaith llawn y pandemig ar iechyd meddwl plant, mae nifer o adrodiadau ac erthyglau yn codi pryderon brys. Er enghraifft, gweler - https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-54470934
205 Barnardo's (2020) In our own words
206 Young Minds (2020) Coronavirus: Impact on young people with mental health needs

Mae gan dri phlentyn ymhob dosbarth gyflwr iechyd meddwl y gellir cael diagnosis amdano, ac mae hanner problemau iechyd meddwl wedi'u sefydlu erbyn oed 14, gyda lefelau o straen, gorbryder a hunan-niweidio'n codi[207], Mae rhai grwpiau dan anfantais yn wynebu heriau penodol[208]. Mae hunanladdiad, un o brif achosion marwolaeth ymysg plant oed 15+, hefyd yn cynyddu[209].

Er ein bod yn croesawu cynnydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dull ysgol gyfan[210] trwy geisio meithrin plant â gwytnwch emosiynol ac iechyd meddwl da, yn ogystal â darparu cefnogaeth amserol pan fo'u angen, rhaid gwneud mwy er cysondeb.

Mae adnabyddiaeth ac ymyrraeth gynnar yn hollbwysig wrth atal cyflyrau iechyd meddwl tymor hir[211]. Gan fod anawsterau iechyd meddwl yn arafu datblygiad yn sylweddol, yn ogystal â bod yn rhwystr i ymgysylltu ag addysgu, mae'n hollbwysig bod darpariaeth yn bodoli er mwyn galluogi plant i brosesu a chael cefnogaeth gydag anawsterau cyn gynted ag y bo modd. Ble mae trawma wedi digwydd, mae gan bob plentyn yr hawl i dderbyn cefnogaeth gyffredinol a chefnogaeth wedi'i thargedu i gynorthwyo'r broses wella ac i osgoi triniaeth mewn argyfwng. Mae darpariaeth gyffredinol i bawb yn hollbwysig gan ei fod yn helpu i leihau ofn a stigma[212], gan ei wneud yn rhan o sgyrsiau bob dydd[213] sy'n helpu adeiladu gwytnwch.

Mae gormod o blant yn wynebu llwybrau tameidiog[214] , ymatebion annigonol ac oedi, ac yn aml mae'n rhaid iddynt gyrraedd pwynt o argyfwng cyn cael mynediad i wasanaeth cefnogaeth[215]. Mae angen darpariaeth gwnsela holistaidd wedi'i ganoli ar y plentyn, yn ogystal â chefnogaeth iechyd meddwl drwy gydol amser plentyn mewn addysg[216]. Dylai ysgolion fod yn hybiau cymunedol gydag ymarferion integredig di-foddion, gan weithio gyda phartneriaid i helpu atal a rheoli problemau iechyd meddwl ymysg plant a'u rhieni/gofalwyr[217], trwy wasanaethau galw heibio[218]. Dylai hyfforddiant traws-sector cyson gael ei flaenoriaethu a'i ariannu, er mwyn codi ymwybyddiaeth, gwella cyfathrebu a chynorthwyo pobl i ddod o hyd i'r hyn sy'n berthnasol[219].

I blant ag anghenion mwy dwys, dylid blaenoriaethu adeiladi capasiti CAMHS[220], gwella mynediad, amseroedd amser a chyfnodau rhwng asesiad a thriniaeth[221], yn ogystal â hybu[222] a monitro trosglwyddo i wasanaethau oedolion[223].

---

207 Senedd Cymru (2018) Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cadernid Meddwl

208 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Place2Be

209 Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant a'r ONS (2020) Suicides in England and Wales: 2019 registrations

210 Llywodraeth Cymru (2020) Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol

211 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Place2Be

212 Amser i Newid Cymru (2018) Mythau a Ffeithiau

213 Senedd Ieuenctid Cymru (2020) Beth am siarad am Iechyd Meddwl

214 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan ProMo Cymru

215 Barnardo's (2020) In our own words

216 Mae gwasanaethau cwnsela annibynnol statudol mewn ysgolion wedi bod o fantais arbennig i blant, ond yn aml maent wedi'u gorlwytho a dylid eu cynnig i blant iau oed ysgol (gweler y dystiolaeth a gyflwynwyd i Senedd Cymru (2018) Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Cadernid Meddwl)

217 Dylai dulliau integredig gynnwys, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol plant, cefnogaeth gan deuluoedd, sector wirfoddol plant, llinellau cymorth, y sector gwaith ieuenctid oll fel partneriaid hafal i gefnogi ysgolion ac ymarferwyr iechyd wrth gyflwyno'r dull systemau cyfan

218 Comisiynydd Plant Cymru (2018) papur safbwynt: Gwasanaethau iechyd meddwl i blant yng Nghymru

219 Dylai hyn gynnwys addysg gychwynnol athrawon, gweler Estyn (2019) Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion

220 Yn cynnwys gofal a chefnogaeth argyfwng y tu allan i oriau Gweler hefyd bwyntiau a godwyd fel tystiolaeth gan Hafal

221 Ni ddylai 80% o gleifion aros yn hirach na 28 diwrnod o gael eu cyfeirio i gael eu hasesu. Fodd bynnag nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amser y mae'n rhaid i blentyn aros am driniaeth na safon y canlyniad.

222 Hafal et al (2016) Gwneud Synnwyr: Adroddiad gan bobl ifanc ar eu lles a'u hiechyd meddwl

223 Caiff nifer o bobl ifanc eu trosglwyddo'n awtomatig yn 18 oed, pan maent yn arbennig o fregus. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw trosglwyddo drafft i bob gwasanaeth iechyd

Dylai hyn gyd-fynd â mwy o ddulliau therapiwtig, wedi'u harwain ar gyfer plant i'r rheini – y 'Canol Coll' – nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy cymhwysedd CAMHS ond eto sydd angen cefnogaeth therapiwtig[224]. Ceir prinder opsiynau gwasanaethau 'canolradd', wrth i blant gwympo rhwng lefelau gwahanol o gefnogaeth wrth i angen ddwysáu, gyda galwadau am un pwynt mynediad i gael ei sefydlu ar frys er mwyn gwella llwybrau gofal[225].

Mae gan y ddwy uned yng Nghymru le cyfyngedig, ac o ganlyniad mae rhai plant yn cael eu hanfon i ysbytai sy'n bell o gartref.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Fuddsoddi mewn cefnogaeth ymyrraeth gynnar ar gael i bobl plentyn, yn ogystal â chefnogaeth aml-asiantaeth yn y gymuned er mwyn cefnogi'r 'Canol Coll'?
- Darparu CAMHS arbenigol â digon o adnoddau, sydd ar gael pan fo angen ar yr unigolyn, gyda mwy o atebolrwydd, gan gynnwys gwaith casglu data gwell?
- Sicrhau bod digon o le mewn ysbytai arbenigol, yn agos i gartref y plentyn, ac i ddatblygu opsiynau amgen cymunedol addas?

Safon byw

Tlodi Plant

Mae gan blant yr hawl i safon byw ddigonol. Serch hynny, gwrthodir yr hawl hwn i oddeutu 180,000 o blant sydd wedi eu dal mewn tlodi. Mae cyfraddau tlodi plant wedi parhau'n gyson uchel ac yn gyson, gyda data cyn COVID-19 yn dangos bod 28% o blant yn byw mewn tlodi[226], gyda chyfraddau sylweddol uwch mewn llawer o ardaloedd penodol[227]. Mae plant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â'r mwyafrif o grwpiau eraill, sy'n effeithio'n anghyfartal ar y rhai sy'n byw mewn teuluoedd rhiant unigol a theuluoedd mwy o faint; rhai teuluoedd BAME, aelwydydd heb gyflogaeth ag aelwydydd gydag oedolyn neu blentyn anabl[228].

Ar gyfartaledd, mae plant mewn teuluoedd tlawd bellach yn byw yn is o dan y ffin tlodi nag yr oeddent bum mlynedd yn ôl, gan brofi mwy o galedi a chanlyniadau gwaeth ar draws nifer o ddangosyddion[229]. Mae amddifadedd materol yn effeithio ar gyfran sylweddol o blant, gydag oddeutu 11% o blant yn dioddef cyfuniad o incwm isel ac amddifadedd materol gyda'i gilydd[230], ac 17% o blant mewn teuluoedd rhiant unigol yn wynebu amddifadedd materol[231]. Mae'r tebygolrwydd y bydd plentyn yn byw mewn tlodi parhaus yn 19%[232], sy'n cynyddu'r risg o ganlyniadau gwaeth ar ddiwedd plentyndod.

Mae nifer o sefyllfaoedd wedi gwaethygu o ganlyniad i effaith economaidd COVID-19[233]. Mae teuluoedd a fu gynt yn ei chael hi'n anodd, yn ddiweddar wedi profi dirywiad incwm o ganlyniad i golli swyddi a gostyngiadau dros-dro/parhaol mewn oriau gwaith, sy'n cydredeg â chostau byw uwch oherwydd bod pobl yn treulio cyfnodau hir yn y cartref. Dengys ymchwil bod 7 allan bob 10 teulu sy'n derbyn cymorth lles yn cwtogi ar hanfodion megis bwyd, cyfleustodau, eitemau babanod a gweithgareddau i blant o ganlyniad i'r

224 Mae ffigurau diweddaraf yn dangos bod 68% o gyfeiriadau at CAMHS yn cael eu derbyn. Er hynny, ni dderbynnir bron i draean ohonynt

225 Senedd Cymru (2020) Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cadernid Meddwl, dwy flynedd yn ddiweddarach

226 Stats Cymru, Canran yr holl unigolion, plant, oedolion oedran gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer y DU, gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr rhwng 1994-95 i 1996-97 a 2016-17 i 2018-19 (cyfartaleddau 3 blynedd o blynyddoedd ariannol)

227 ECP (2020) Local child poverty indicators 2018/19

228 Sefydliad Joseph Rowntree (2020) Poverty in Wales 2020

229 Grwp Gweithredu ar Dlodi Plant (2020) Dragged Deeper: how families are falling further and further below the poverty line

230 Stats Wales (2019) Amddifadedd materol, prif ffigyrau.

231 Llywodraeth Cymru (2019) Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18: Tlodi ac Amddifadedd (Saesneg yn unig)

232 Yr Adran Waith a Phensiynau (2020) Income Dynamics: Income Movements and the Persistence of Low-incomes

233 Sefydliad Bevan (2020)) Reducing the impact of Coronavirus on Poverty in Wales

pandemig[234]. Mae diwygio lles, tlodi bwyd, dyled, costau trafnidiaeth, rhwystrau cyflogaeth a chostau tai na ellir ei fforddio yn rhwystrau a gyflwynir yn gyson gan deuluoedd incwm isel[235].

Mae gwaith yn lleihau'r risg o dlodi. Fodd bynnag, mae 2 allan o bob 3 plentyn sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn aelwydydd lle mae o leiaf un person yn gyflogedig. Mae cyflogau isel, cyflogaeth heb ddiogelwch a chostau uchel rhentu ymysg y ffactorau sy'n gwthio teuluoedd sy'n gweithio mewn i dlodi[236]. Mae teuluoedd yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol i ennill incwm teilwng, fel anawsterau wrth gael mynediad at drefniadau gofal plant a'r gallu i dalu amdanynt[237] Mae rhieni mewn gwaith rhan-amser yn ennill llai o gyflog am eu bod yn gweithio llai o oriau, ond, yn bwysicach fyth, mae gweithwyr rhan-amser yn ennill llai o arian fesul awr na gweithwyr mewn rolau amser llawn[238]. Mae lefelau cyflogaeth hefyd wedi gostwng yn anghyfartal yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill y DU o ganlyniad i COVID-19[239].

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Strategaeth Tlodi Plant statudol yn 2010 sydd bellach angen ei hadolygu ar frys[240]. Dylid gweithredu ar hyn heb oedi, gyda chefnogaeth cerrig filltir uchelgeisiol a thargedau wedi'u gosod yn unol â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Dylid cymryd camau i ganolbwyntio ar atal tlodi drwy leihau gwariant aelwydydd, yn ddelfrydol drwy ymyriadau yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinolrwydd. Gyda dros 60,000 o deuluoedd ar y rhestr aros am dai cymdeithasol[241], mae angen gweithredu'n gynt i gyrraedd targedau tai fforddiadwy[242].

Lles

Nid yw system nawdd cymdeithasol y DU yn darparu rhwyd diogelwch digonol i deuluoedd, gan ei fod wedi ei ddatgymalu'n systematig trwy bolisïau sy'n mynd yn erbyn hawliau dynol[243]. Er bod rhai budd-daliadau wedi cael eu codi dros dro o ganlyniad i COVID-19, sy'n ddatblygiad cadarnhaol, mae problemau sylfaenol yn parhau, yn enwedig o ran taliadau gohiriedig, sancsiynau, y cyfyngiad ar lefel budd-daliadau a'r cyfyngiad dau blentyn[244] sy'n cynyddu caledi ariannol trwy gyfyngu ar sawl budd-dal gall teuluoedd incwm isel eu derbyn[245], heb ystyried eu hanghenion.

Er mai Llywodraeth y DU sy'n penderfynu ar weinyddiaeth y system lles, ceir rhai diffygion pwysig yn y dull a ddefnyddir yng Nghymru i gefnogi teuluoedd incwm isel yn ariannol. Er bod llu o gynlluniau wedi'u targedu yn bodoli, ceir amrywiadau sylweddol yn y meini prawf cymhwysedd; fel prosesau gwneud cais gwahanol yn gofyn am nifer o gyflwyniadau, a lefelau annigonol o gymorth i wneud gwahaniaeth go iawn[246].
Mae momentwm yn tyfu i Gymru sefydlu System Fudd-daliadau Gymreig fel pwynt mynediad unigol, gyda meini prawf cymhwysedd cyson ac estynedig yn seiliedig ar hawl nid ar ddisgresiwn[247].

234 Sefydliad Joseph Rowntree ac Achub y Plant (2020) A lifeline for our children: Strengthening the social security system for families with children during this pandemic

235 Plant yng Nghymru (2020) Tlodi Plant a Theuluoedd yng Nghymru Adroddiad ar Arolwg Plant a Theuluoedd 2019

236 Stats Cymru (2020) Plant mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd.

237 Chwarae Teg a Sefydliad Bevan (2019), Trapped: Poverty amongst women in Wales today

238 ibid

239 BBC News Wales (2020) Unemployment: Wales sees largest rise rate across UK

240 Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (2019) Galw o'r newydd am Gynllun Cyflawni ym maes Tlodi Plant

241 BBC News Wales (2018) 'Housing "Crisis": Shelter Cymru urges investment'

242 Llywodraeth Cymru (2017) Symud Cymru ymlaen 2016-21

243 Cyngor Hawliau Dynol (2019) Report of the Special Rapporteur on Extreme Poverty and Human Rights.

244 Mae'r cyfyngiad 2 blentyn yn cyfyngu cefnogaeth, trwy gredydau treth a chredyd uniongyrchol, i'r ddau blentyn cyntaf mewn teulu. Mae 911,000 o blant yn byw mewn cartrefi a effeithir ac mae oedolion mewn gwaith mewn bron 3 ymhob 5 cartref (Data y DU). Gweler y Grwp Gweithredu ar Dlodi Plant (2020) The Two-Child Limit Now Affects almost 1 million children

245 Yng Nghymru, dydy 11,320 o gartrefi ddim yn gallu hawlio cefnogaeth dros o leiaf un o'u plant o ganlyniad i'r cyfyngiad ar ddau o blant, 56% o gynnydd mewn 12 mis yn unig [gweler DWP/HMRC (2020) Child Tax Credit and Universal Credit: statistics related to the policy to provide support for a maximum of 2 children]. Cyfyngwyd ar fudd-daliadau 3580 o deuluoedd ym mis Mai 2020, cynnydd o 58% rhwng Chwefror a Mai eleni [gweler DWP (2020) Benefit cap: number of households capped to May 2020]

246 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y Sefydliad Bevan

247 Sefydliad Joseph Rowntree (2020) Poverty in Wales 2020 a Senedd Cymru (2019) Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau -Budd-daliadau yng Nghymru:opsiynau i'w cyflawni'n well

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig gyda Chynllun Cyflenwi, gyda cherrig milltir uchelgeisiol, targedau a threfniadau monitro?
- Sefydlu System Fudd-daliadau Gymreig fel pwynt mynediad unigol ar gyfer cymorth?
- Alw ar Lywodraeth y DU i ddiddymu'r terfyn dau blentyn a'r cap budd-daliadau a chadw'r ymgodiad dros dro o Gredyd Cynhwysol?

Tlodi Bwyd

Mae gan bob plentyn yr hawl i fwyd. Serch hynny, mae plant yn llwgu a rhieni yn mynd heb fwyd[248] oherwydd prinder incwm. Mae ymchwil yn pwysleisio bod 160,000 o blant mewn tlodi yn byw mewn aelwydydd lle nad oes modd talu am gost deiet iach[249], sy'n effeithio ar eu canlyniadau iechyd, eu datblygiad a chanlyniadau addysgiadol. Cyn COVID-19, cyfeiriwyd mwy o bobl nag erioed at fanciau bwyd, gyda dros 51,000 o becynnau bwyd brys i blant yn cael eu dosbarthu[250]. Ar gyfartaledd, dosberthir 2,600 o becynnau i blant yn y DU bob dydd ers i'r pandemig daro, a rhagwelir y bydd y galw yn parhau[251].

Er ein bod yn cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu Prydau Ysgol am Ddim i blant cymwys yn ystod gwyliau ysgol[252] er mwyn helpu i ysgafnu caledi ariannol, ceir diffygion sylfaenol yn y system.

Gweithredir cynllun lwfans Prydau Ysgol am Ddim yng Nghymru ac mae'r cynllun yn parhau i fod yn elfen werthfawr iawn yn yr ymdrech i fynd i'r afael â llwgu, ac i helpu plant i gael mynediad at bryd bwyd maethlon. Fodd bynnag, mae'r meini prawf trothwy incwm[253] yn cyfyngu ar nifer y plant sy'n manteisio ar y cynllun, gyda dros 50% o blant sy'n byw mewn tlodi heb fod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim gan eu bod ddim yn cael eu hystyried i fod yn ddigon tlawd[254]. Mae'r lwfans hefyd yn annigonol i dalu pris llawn pryd bwyd iach, sy'n arwain at rhai plant yn llwgu neu'n dewis bwyd sy'n isel o ran maeth[255]. Ar y cyfan, mae'r hawl i Brydau Ysgol am Ddim yn fwy cyfyngedig yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill y DU[256].

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf. Serch hynny, mae'r nifer o blant y mae'r cynllun yn eu cyrraedd yn gymharol fach ac mae angen buddsoddiad sylweddol ar frys i gynyddu cwmpas y rhaglen. Er bod y Cynllun Brecwast am ddim yn sicrhau bod rhai plant yn gallu cael dechrau iachus i'r diwrnod ysgol, nid yw ar gael i bob plentyn o aelwydydd incwm isel.[257]

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gynyddu'r cymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol am ddim a Thocynnau Cychwyn Iach i bob plentyn gyda rhieni sy'n derbyn Credyd Cynhwysol; fabwysiadu system gofrestru awtomatig ar draws yr holl awdurdodau lleol a gweithio tuag at system lle mae pawb yn gymwys i dderbyn prydau am ddim?
- Sefydlu system ble mae teuluoedd yn derbyn arian parod yn lle Prydau Ysgol am Ddim yn ystod gwyliau ysgol?
- Ehangu'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf yn ddaearyddol ac ar draws bob gwyliau ysgol i gynorthwyo plant i adennill o'r golled addysgol?

248 Plant yng Nghymru (2020) COVID 19 a'r effaith ar deuluoedd incwm isel a difreintiedig
249 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Food Sense Wales yn cyfeirio at ymghwil a gynhaliwyd gan y Food Foundation
250 Trussel Trust (2020) End of Year stats
251 Trussel Trust (2020) Mid-Year stats
252 Llywodraeth Cymru (2020) Marcus Rashford MBE yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod pob gwyliau ysgol tan Pasg 2021
253 Ers 2018, dim ond os yw incwm y teulu o dan £7,400 (cyn ystyried budd-daliadau) mewn cartrefi sy'n derbyn Credyd Uniongyrchol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
254 Grwp Gweithredu ar Dlodi Plant (2020) Expanding Eligibility for Free Schools Meals in Wales
255 Food Foundation (2019) Report of the Children's Future Food Inquiry
256 Er bod y trothwy cymhwysedd yng Nghymru ar yr un lefel â Lloegr a'r Alban, mae'r gwledydd hynny'n cynnig darpariaeth am ddim i bob plentyn yn ystod 3 blynedd cyntaf eu haddysg. Mae gan Ogledd Iwerddon drothwy cymhwysedd uwch o £14,000.
257 Llywodraeth Cymru (2020) Ystadegau Brecwastau am ddim

Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwyllianol

Addysg

Mae plant wedi colli cyfran sylweddol o'r flwyddyn ysgol ac mae plant difreintiedig a bregus wedi colli'r mwyaf[258]. Er bod llawer wedi gallu gwneud rhywfaint o waith ysgol trwy gyfleoedd dysgu rhwng y cartref a'r ysgol, mae llawer wedi wynebu sawl rhwystr[259]. Mae'n bosibl na fydd yr effaith lawn ar blant, yn enwedig y rhai sydd yng nghyfnodau tyngedfennol yn eu haddysg, yn hysbys am beth amser, a bydd angen casglu rhagor o ddata[260]. Wrth i blant ddychwelyd i amgylcheddau ysgol, mae angen adnoddau a gwasanaethau ychwanegol i gynorthwyo plant i drosglwyddo'n ddiogel i'r amgylcheddau hyn[261].

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fframwaith cwricwlwm penodol ar gyfer plant rhwng 3 a 16 oed[262], igan gyflwyno trefniadau asesu a chymwysterau newydd sydd wedi'u cynllunio i godi safonau, mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad[263], ac mae mwy o bwyslais ar les ac addysg disgyblion.

Mae'n galonogol bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn cael ei diwygio, a bydd dod yn orfodol i bob disgybl o 2022 ymlaen, i helpu i hyrwyddo perthnasoedd iach cadarnhaol ac i gyfrannu at atal trais ar sail rhywedd. Fodd bynnag, ni fydd Addysg Lles Mislif yn cael ei gwneud yn orfodol, a allai arwain at waethygu anghydraddoldebau trwy wrthod cyfle i rai plant ennill gwybodaeth i alluogi hunan-eiriolaeth ac i wella canlyniadau iechyd ac addysg[264].

Ni fu unrhyw gynnydd i ddiddymu darpariaethau cyfreithiol o ran ei bod yn orfodol i blant fynychu addoliad ar y cyd mewn ysgolion. Felly, gwrthodir yr hawl i blant dynnu'n ôl yn annibynnol[265]. Fodd bynnag, croesawir yn gyffredinol y diwygio ar Addysg Grefyddol.

Er bod y cwricwlwm newydd yn cynnig gwneud Addysg Hawliau Dynol yn orfodol ym mhob ysgol, nid yw galwadau i roi dyletswydd sylw dyledus i'r CRC mewn deddfwriaeth ddrafft eto i'w derbyn[266].

Mae angen gwella'r cynnig eiriolaeth i blant mewn lleoliadau addysg er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu[267].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod diwygio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bob plentyn ym mhob ysgol a bod trefniadau monitro effeithiol ar waith?
- Ddiddymu darpariaethau cyfreithiol o ran ei bod yn orfodol i blant fynychu addoliad ar y cyd?

---

258 Education Policy Institute (2020) School attendance rates across the UK since full reopening

259 EHRC (2020) How coronavirus has affected equality and human rights

260 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Clybiau Plant Cymru

261 Er enghraifft, grwpiau meithrin, cwnsela, cefnogaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol - Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Arweinydd Hawliau Plant, YGG Llwynderw

262 Bydd y national curriculum will be based around 6 'Areas of learning and experience' (AoLE) rather than subjects

263 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): summary

264 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Fair Treatment for the Women of Wales. Mae Addysg Llesiant Mislifol wedi bod yn orfodol yn Lloegr ers Medi 2020. Pwyntiau sy'n pwysleisio pwysigrwydd Iechyd Mislifol yn y cwricwlwm, gweler Brook (2020) Tystiolaeth i Arolwg Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru mewn i'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

265 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Dyneiddwyr Cymru

266 Gweler, er enghraifft, dystiolaeth ysgrifenedig gan Plant yng Nghymru (2020) Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru: Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

267 Nason, S. & Sherlock, A. et al. (2020) Public Administration and a Just Wales

- Roi dyletswydd 'sylw dyledus' i CHP yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)?
- Wneud addysg lles mislif yn elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd?
- Wella'r cynnig eiriolaeth i blant mewn lleoliadau addysg?

Cyrhaeddiad addysgol

Mae cefndir economaidd-gymdeithasol yn parhau i gael effaith ar lefelau cyrhaeddiad[268], ac mae plant o gartrefi incwm isel yn tanberfformio o'u cymharu â phlant o deuluoedd mwy breintiedig[269]. Mae data'n dangos, er bod y bwlch wedi lleihau dros amser rhwng plant tlotach a'u cyfoedion yn y mwyafrif o gyfnodau allweddol, mae'r bwlch ymhlith pobl ifanc rhwng 14 a 15 oed wedi cynyddu[270]. Yn gyffredinol, mae lefelau cyrhaeddiad bechgyn, plant ag anghenion dysgu ychwanegol, plant sydd wedi bod mewn gofal a rhai plant â nodweddion gwarchodedig yn is na'u cyfoedion[271]. Yn seiliedig ar fesurau rhyngwladol, mae lefelau cyrhaeddiad ymhlith plant yng Nghymru yn parhau i fod yn is na chenhedloedd eraill y DU[272].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Fynd i'r afael â'r bylchau cyrhaeddiad mewn perthynas ag anfantais economaidd-gymdeithasol a nodweddion gwarchodedig, yn unol â'r cyfrifoldebau y mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn eu hargymell?

Mynediad i Addysg: Anghyfartaleddau dysgu digidol

Mae ystadegau wedi tynnu sylw at y berthynas rhwng mynediad digidol a pherfformiad addysg[273]. Fel rhan o'r annhegwch a amlygwyd gan COVID-19, mae allgáu digidol wedi bod yn drawiadol, oherwydd yr effaith y mae allgáu o'r fath yn ei gael ar allu plant i ddysgu o bell. Er gwaethaf bod ymateb Llywodraeth Cymru yn cael ei ddisgrifio fel un i'w ganmol[274], nid oes gan lawer o blant o deuluoedd incwm isel yr adnoddau hanfodol i gwblhau gwaith ysgol[275]. Mae'r annhegwch hwn wedi bod yn effeithio ar blant ers blynyddoedd lawer gan fod platfform dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion (Hwb) wedi bod yn rhan greiddiol o waith ysgol[276]. Gan fod cymhwysedd digidol ar fin dod yn rhan greiddiol o'r cwricwlwm newydd, wrth fynd i'r afael â'r gagendor digidol, dylai hwyluso mynediad i bob plentyn at offer, yn ogystal â gwella cysylltedd presennol fod yn flaenoriaeth. Mae angen cymorth ychwanegol i helpu plant, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig[277], i ymgymryd â dysgu ar-lein, yn enwedig wrth i achosion o COVID-19 mewn ysgolion barhau i amharu ar bresenoldeb a dysgu.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Sicrhau cysylltiadau digidol diogel i bob plentyn i'w galluogi i barhau i ddysgu gartref, gan asesu mesurau a gymerwyd yn ddiweddar gyda'r bwriad o wneud mesurau o'r fath yn barhaol?

268 Ystadegau (2019) Cyraeddiadau a'r hawl i brydau am ddim: 2019

269 Dengys tystiolaeth a dderbyniwyd gan Achub y Plant bod tua traean o blant oed 5 sy'n byw mewn tlodi wedi cwympo y tu ôl mewn ystod o ganlyniadau gwybyddol o gymharu â un ymhob pump o'r rheini mewn teuluoedd mwy breintiedig

270 Ystadegau (2020) Canlyniadau Arholiadau: Medi 2019 i Awst 2020 (dros dro)

271 Ystadegau (2019) Academic achievement by pupil characteristics: 2018 ac Ystadegau (2019) Wales Children Receiving Care and Support Census: as at 31 March 2019

272 Wales Online (2019) New international PISA schools tables show Wales remains behind other UK nations but is improving

273 Ystadegau ar gyfer Cymru (2019 Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19: Defnydd o'r Rhyngrwyd a sgiliau digidol

274 Education Policy Institute (2020) Education policy responses across the UK to the pandemic

275 CCHD (2020) How coronavirus has affected equality and human rights

276 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Barnados Cymru

277 Llywodraeth Cymru(2020) Addysg a Gofal Plant: Coronafeirws

Addysg ôl-16

Mae data'n tynnu sylw at nifer cynyddol o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n ddi-waith[278] ac mae disgwyl i effaith COVID-19 waethygu'r rhwystrau presennol. Mae angen cyllid ychwanegol i gynorthwyo plant o deuluoedd incwm isel i gynnal eu presenoldeb mewn addysg brif ffrwd[279], ynghyd â phwyslais gwell ar symud ymlaen at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 mewn modd cynaliadwy

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gynyddu gwerth ariannol y Lwfans Cynhaliaeth Addysg i gynorthwyo plant o aelwydydd incwm isel i aros mewn addysg?

Gwahardd o'r ysgol

Mae'r ffigurau'n dangos cynnydd parhaus dros 4 blynedd ac mae 35 gwaharddiad tymor penodol ar gyfer pob 1,000 o ddisgyblion. Mae plant o gefndiroedd tlotach, disgyblion AYD, rhai grwpiau nodweddion gwarchodedig a disgyblion gwyn yn cael eu gorgynrychioli yn y ffigurau hyn[280]. Dyblodd cyfradd y gwaharddiadau parhaol rhwng 2014/15 a 2017/18[281]. Ar hyn o bryd, mae gan 2,286 o ddisgyblion drefniadau amgen i'r ysgol, sy'n cynrychioli 3.8 i bob 1,000 o ddisgyblion[282].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Gymryd camau i ostwng y cyfraddau gwahardd uchel, gan gynnwys ar gyfer y plant hynny sydd â nodweddion gwarchodedig?

Chwarae a hamdden

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ar chwarae yn 2010. Ers 2014, mae gofyn i awdurdodau lleol asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd[283].

Mae dadansoddiadau blynyddol o gynlluniau awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd yn dangos cynnydd addawol o ran sicrhau digon o gyfleoedd chwarae[284] yn unol â chanllawiau statudol[285]. Fodd bynnag, er y cydnabyddir gwerth chwarae, a'r manteision mae chwarae yn eu cynnig yn syth ac yn hwyrach mewn bywyd, mae toriadau i gyllidebau gwasanaethau plant yn parhau, ac mae Sefydliadau Cymdeithas Sifil yn adrodd bod mynediad at gyllid wedi lleihau'n sylweddol Mae llymder cyllidol wedi cael effaith andwyol ar ddarpariaeth gwaith chwarae lleol, ac mae capasiti gwasanaethau datblygiad chwarae wedi'u staffio wedi lleihau o ganlyniad i hyn[286].

278 Data Haen 5 Gyrfa Cymru. Mae'r fframwaith ymgysylltu a chynnydd ieuenctid wedi gweld dirywiad cyson yn nifer y NEETs dros y pum mlynedd diwethaf, ond y flwyddyn diwethaf dechreuodd y gyfradd godi eto.

279 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Llamau, Gweler hefyd Sefydliad Bevan (2020) Learning a living, better support for post-16 learners.– Dydy gwerth Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), er enghraifft, ddim wedi newid ers 2004/5.

280 Llywodraeth Cymru (2019) Gwahard parhaol a dros dro o ysgolion yng Nghymru 2017-18

281 ibid

282 Mae Adran 19(1) o'r Ddeddf Addysg (1996) yn rhoi grym i awdurdodau lleol wneud: trefniadau i ddarparu addysg addas mewn ysgol neu mewn leoliad heblaw ysgol [EOTAS] i blant o oedran ysgol orfodol sydd, oherwydd salwch, gwaharddiad neu reswm arall, yn methu a derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod heblaw bod y trefniadau hynny'n cael eu gwneud ar eu cyfer. Gweler Papur Briffio

283 Mae Adran 11 Children and Families (Wales) Measure 2010 yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i asesu (ers 2012) a sicrhau (ers 2014) bod cyfleoedd digonol i blant gael chwarae yn eu hardal..

284 Russell, W., Barclay, M., Derry, C. and Tawil, B. (2019) Children's Right to Play in Wales: Six years of stories and change since the commencement of the Welsh Play Sufficiency Duty. Chwarae Cymru. Gweler hefyd dystiolaeth oddi wrth wasanaeth parciau awdurdod lleol

285 Llywodraeth Cymru Gwlad lle mae cyfle i chwarae https://gov.wales/wales-play-friendly-country

286 Tystiolaeth o sesiwn gweithdy ar Chwarae

Mae sefyllfa COVID-19 wedi ychwanegu at y rhwystrau ym maes chwarae plant. Mewn cyfnod sy'n llawn straen, ansicrwydd a thrawma[287] pan fydd cyfleoedd chwarae yn fwy pwysig nag erioed o ran gwerth therapiwtig, mae llai o gyfleoedd wedi bod i chwarae a chymdeithasu gan fod rheolau wedi'u cyflwyno o ran symudiadau a chyswllt rhwng pobl[288] . Cyfyngwyd ar fynediad y cyhoedd at fannau awyr agored, ac phenderfynodd llawer o ysgolion i leihau'r gofod chwarae yn ystod cyfnodau egwyl[289]. Daeth anghydraddoldebau i'r amlwg yn ystod y cyfnod clo o ran cyfleoedd chwarae i blant o gefndiroedd BAME, ac i blant o ardaloedd difreintiedig[290]. Croesawir y cyhoeddiad diweddar am y Grant Cyfleoedd Chwarae[291] a fydd yn gwella cyfleoedd chwarae yn yr awyr agored, a'r Prosiect Gwaith Chwarae sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd chwarae o ran lles plant mewn cymunedau agored i niwed.

Cyn COVID-19, dangosodd gwaith ymchwil fod plant yn fodlon, ar y cyfan, â'r cyfleoedd chwarae oedd ar gael iddynt, ond bod rhwystrau yn bodoli hefyd, gan gynnwys rhieni gofalgar yn pryderu am eu diogelwch[292]. Mae camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i hyrwyddo teithio llesol ac i gyflwyno systemau rheoli traffig mewn ardaloedd preswyl [293] a fydd, o'u gweithredu'n gywir, yn rhoi rhyddid i blant allu chwarae y tu allan mewn amgylchedd saffach a glanach.

Mae Sefydliadau Cymdeithas Sifil wedi adrodd bod rhieni yn pryderu am fyrhau dyddiau ysgol, a fyddai'n golygu bod llai o amser chwarae, ac yn pryderu hefyd fod chwarae wedi'i dynnu o'r polisi rheoli ymddygiad[294], er bod yr arolygiaeth addysg wedi pwysleisio pwysigrwydd chwarae er mwyn sicrhau bod plant yn datblygu i fod yn iach ac yn hyderus[295]. Dylid ystyried y posibilrwydd o wneud defnydd ehangach o safle'r ysgol y tu hwnt i oriau dysgu, yn unol â chanllawiau cenedlaethol[296] a hawlio mannau cymunedol yn ôl[297].

Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i werthuso cynnydd ac i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael i bob plentyn a'r glasoed. Byddai cynnwys barn plant yn yr adolygiad hwn yn arbennig o fuddiol, o ystyried y pwyslais a roddir ar chwarae ac amser rhydd yn yr awyr agored[298].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Weithredu i wella lles mewn ysgolion drwy sicrhau bod yr hawl i chwarae yn rhan allweddol o'r cwricwlwm newydd; bod neilltuo egwyl ddigonol ar gyfer chwarae yn orfodol, ar amod archwiliad, a bod mannau awyr agored ar gael mewn ysgolion er mwyn chwarae pan fydd y dydd ysgol yn dod i ben?
- Sicrhau bod cyllid digonol a chynaliadwy ar gael i ddiogelu darpariaeth gwaith chwarae cymunedol; yn estyn y Prosiect Gwaith Chwarae ac yn cefnogi mentrau sy'n rhoi'r rhyddid i blant o bob oed allu chwarae yn ddiogel yn y gymuned?

---

287 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Chwarae Cymru

288 Gweler, er enghraifft, dystiolaeth a dderbyniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru am y cyfleoedd i chwarae a dysgu ar y tu allan mewn natur. .

289 Er enghraifft, trwy gwtogi ar amser chwarae, a llai o wagle i gael chwarae ynddo

290 Comisiynydd Plant Cymru (2020) Y Coronafeirws a fi: Profiadau plant o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru a and HAPPEN (2020) HAPPEN at Home survey

291 Mae'r Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan yn cynnwys cyllid cyfalaf i awdurdodau lleol gael gwella cyfleoedd chwarae tu allan i blant, a chyllid refeniw i brosiect Gwaith Chwarae yn seiliedig ar y prosiect Gwaith Chwarae: Llwgu yn ystod y gwyliau a gafodd ei dreialu yn ystod y gwyliau ysgol yn 2019-2020.

292 Dallimore, D. (2019) 'I learn new things and climb trees' – What children say about play in Wales.

293 Er enghraifft, gwnaeth Llywodraeth Cymru (2020) benderfyniad cychwynnol i gefnogi gwneud cyfyngiadau cyflymder mewn ardaloedd preswyl yng Nghymru yn 20mya

294 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Chwarae Cymru

295 Estyn (2019) Healthy and happy – school impact on pupils' health and wellbeing See also Play Wales (2019) A play friendly school – Guidance for a whole school approach which provides policy and practice related information to help communities take a whole school approach to children's right to play.

296 Llywodraeth Cymru (2014 Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae. Gweler hefyd Chwarae Cymru (2015) Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu: pecyn cymorth

297 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Clybiau Plant Cymru

298 Comisiynydd Plant Cymru (2018) Adroddiad Sbotolau Erthygl 31

Mesurau Amddiffyn Arbennig

Ceiswyr lloches, Ffoaduriaid a Mewnfudwyr sy'n blant

Mae plant sy'n ceisio lloches, yn enwedig y rhai ar eu pen eu hunain ac sy'n ddigwmni, yn agored iawn i niwed. Yn aml, maent mewn perygl o gael eu hecsbloetio, eu cam-drin, wynebu trais ar sail rhywedd a chael eu masnachu. Mae llawer wedi profi trawma a bydd angen cymorth ychwanegol arnynt wrth iddynt gyrraedd Cymru. Mae'r mwyafrif o Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches yn cyrraedd Cymru yn ddigymell ac mae'r union ffigurau'n anodd i'w canfod.

Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am bolisi lloches a mewnfudo[299] ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn agored wrth feirniadu ei phenderfyniad i gau'r 'Cynllun Dubs'.

Croesawn yr ymrwymiad i wneud Cymru'n genedl noddfa a'r pwyslais a roddir ar werthfawrogi'r asedau a ddaw yn sgil ymfudwyr a'u rôl wrth gyfrannu at wneud ein cymunedau'n fwy amrywiol.

Gall Llywodraeth Cymru gymryd camau i leihau anghydraddoldebau a darparu gwasanaethau prif ffrwd a rhai priodol o ran diwylliant i wella canlyniadau addysg, iechyd a chymdeithasol i blant[300]. Eto i gyd, nid yw galwadau di-rif i sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i ddarparu cyngor cyfreithiol a chefnogaeth gynhwysol i Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches[301], i ategu'r trefniadau eirioli presennol[302] wedi cael eu cwrdd.

Gwnaed galwadau i fynd i'r afael ag oedi mewn penderfyniadau asesu oedran, cynyddu nifer y lleoliadau ac opsiynau o ran tai addas i ddarparu sefydlogrwydd a dewis.

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Sefydlu system o warcheidiaeth gyfreithiol i gefnogi plant trwy'r broses loches; ehangu a darparu cefnogaeth eiriolaeth arbenigol ddigonol ar gyfer Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches?

Cyfiawnder Ieuenctid

Mae oedran cyfrifoldeb ieuenctid yn fater wedi'i gadw i Lywodraeth y DU, sy'n parhau i wrthod galwadau i'w godi. Cymru a Lloegr sydd â'r raddfa isaf yn yr Undeb Ewropeaidd[303], sef 10 oed[304] sydd wedi denu cryn feirniadaeth[305]. Er gwaethaf y cyfyngiadau sydd ar Gymru i basio deddfau ar y mater hwn, argymhellwyd y dylid codi'r oedran cyfrifoldeb ieuenctid gan y 'Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru' a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru[306]. Pe bai polisi Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei ddatganoli i Gymru fel yr argymhellir, byddai potensial i wneud diwygiadau blaengar i'r perwyl hwn[307].

299 Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ar geisiau am loches, cefnogaeth budd-daliadau, cymorth cyfreithiol, gweithredu cynlluniau adsefydlu a darpariaeth a safon llety a chefnogaeth tai

300 Fel y nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru a gymeradwywyd gan y CU (2019) Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

301 Senedd Cymru (2017) Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun a thystiolaeth a dderbyniwyd gan TGP Cymru

302 NYAS Cymru (2020) Place of Safety? New ways to protect, support, empower and safeguard UASC in Wales

303 Independent (2019)- yn ogystal â Lloegr a Gogledd Iwerddon

304 Mae 10 oed yn bedair blynedd yn is na'r oedran a argymhellir yn Sylw Cyffredinol Rhif 24 ar 'Hawliau Plant yn y System Gyfiawnder Ieuenctid',sy'n galw ar wladwriaethau i: 'godi'r isafswm oedran yn gyfatebol, i 14 oed o leiaf.'

305 Council of Europe (2020)

306 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019). . Justice in Wales for the People of Wales

307 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan UNICEF UK

Mae darpariaeth iechyd meddwl a chefnogaeth therapiwtig i blant sydd yn y ddalfa yn faterion wedi'u datganoli. Nodwyd yn arolwg dirybudd HMIP o Sefydliad Troseddau Ieuenctid HMYOI Parc nad oedd gwasanaethau iechyd meddwl ieuenctid yn cyflwyno ymyraethau i safonau cenedlaethol[308]. Dylid mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys, gan fynnu gwaith cydlynu gwell rhwng systemau iechyd a chyfiawnder, yn enwedig i blant sy'n dioddef o anawsterau'n deillio o drawma.

Atal plant rhag gorfod bod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yw conglfaen dull sy'n seiliedig ar hawliau, gyda Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru yn argymell dull 'plant yn gyntaf' i osgoi'r system cyfiawnder ieuenctid[309]. TMae nifer y plant yn y ddalfa wedi gostwng, yn bennaf o ganlyniad i'r ffocws ar atal ac arfer sy'n rhoi ystyriaeth i drawma[310], a gwneud y gorau o gyfleoedd i osgoi gorfod mynd i'r llys.

Dylai cadw plentyn yn y ddalfa fod yn opsiwn pan fetha popeth arall, gydag amgylcheddau therapiwtig sy'n ffocysu ar y plentyn i'r lleiafrif sy'n gorfod cael eu cadw yn y ddalfa. Mae plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder ieuenctid[311] ac nid oes sefydliadau yng Nghymru i ferched sy'n cael eu dal mewn sefydliadau yn Lloegr.

Nid yw bod yn y ddalfa gyda'r heddlu yn lle addas i blant, ac fe gedwir rhai plant dros nos lle y dylid sicrhau llety gan yr awdurdod lleol[312].

Cw – A wnaiff Llywodraeth Cymru

- Alw ar Lywodraeth y DU i godi'r oedran cyfrifoldeb troseddol yn sylweddol?[313]
- Sicrhau bod gwasanaethau sy'n cefnogi llesiant emosiynol a meddyliol ar gael i bob plentyn yn y system gyfiawnder ieuenctid?
- Sicrhau bod digon o lety gan awdurdodau lleol fel nad oes un plentyn yn gorfod treulio'r nos yn y ddalfa gyda'r heddlu?

308 Prif Arolygydd Carchardai EM (2019) HMYOI Parc

309 Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru - Cynllun Gweithredu (2019)

310 Mae'r polisi'n canolbwyntio ar leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod – mae'r rheini a phedwar profiad ni weidiol neu fwy bymtheg gwaith yn fwy tebyg o gyflawni gweithred dreisgar ac ugain gwaith yn fwy tebyg o gael eu carcharu (ibid)

311 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan YJB

312 Er enghraifft, gweler BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-48776513

313 Mae Sylw Cyffredinol Rhif 24 y CU yn galw ar wladwriaethau i 'godi'r isafswm oedran yn gyfatebol, i 14 oed o leiaf.'